YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] CHWEFROR, 1874. [RHIF 12.

Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda.—PAUL.

ANHAWSDERAU YSGRYTHYROL.

MEWN erthygl flaenorol, ymdrechais ddangos fod llawer o'r anhawsderau a gyfarfyddir â hwynt wrth ddarllen yr ysgrythyrau, i gael eu priodoli i'r ffaith fod rhai geiriau ac ymadroddion yn cael eu defnyddio mewn ymddyddan cyffredin, mewn credoau, catecismau, ac erthyglau ffydd, mewn ystyr na roddir iddynt yn y Gyfrol Sanctaidd; a phan y mae dynion wrth ddarllen y Beibl, yn myned ar draws y cyfryw eiriau ac ymadroddion, y maent yn eu deall, nid yn eu hystyr Feiblaidd, ond yn yr ystyr a roddir iddynt yn y credoau a'r catecismau. Mae llawer o'r athrawiaethau gau a gredir gan Gristionogion, i gael eu priodoli i hyn mewn mesur helaeth.

Dangosais yn y lle cyntaf, fod y gair "ethol," yn ei ystyr ysgrythyrol, yn arwyddo etholedigaeth *amserol*, ac nid *tragywyddol*,—etholedigaeth i freintiau neillduol yr Efengyl, ac nid etholedigaeth i ddedwyddwch nefol mewn byd dyfodol. Dangosais yn yr ail le, mai priodol ystyr y gair "Iawn" yn y Beibl, yw *cymmod*,—cymmodi partion, y rhai oeddent o'r blaen mewn annghydfod. Dangosais yn y trydydd lle, nad yw yr ymadrodd "teyrnas nefoedd" bob amser yn dynodi *cartref dedwydd y gwynfydedigion* mewn 'stad ddyfodol, ond ei fod fynychaf yn arwyddo Cristionogaeth, neu oruchwyliaeth yr Efengyl, y deyrnas fendigedig hono o dangnefedd, gwirionedd, a chyfiawnder, y daeth Iesu Grist i'w sefydlu yn y byd. Dangosais yn olaf, nad yw y gair "addoli" bob amser yn arwyddo *addoliad crefyddol*, ond yn fwyaf cyffredin yn arwyddo parch, edmygedd, a gwarogaeth mewn ystyr wladol (*civil*)—addoliad a roddid, nid yn unig i Iesu Grist, ond

hefyd i frenhinoedd, proffwydi, swyddogion, ac i bawb mewn awdurdod a dylanwad yn y wlad. Yn yr erthygl bresenol, cymmeraf dan sylw air ysgrythyrol arall, yr hwn nid yw bob amser yn cael ei iawn ddeall, ac ymdrechaf osod gerbron y darllenydd ei *wir* ystyr.

Rhoddir yn aml i'r gair "pechadur" ystyr anysgrythyrol. Mewn siarad cyffredin, wrth bechadur, golygir bob amser *ddyn anfoesol*; ac mai hyn yw ei ystyr ysgrythyrol, yw barn y rhan amlaf, pan mewn gwirionedd y mae yn aml iawn yn arwyddo yn unig *cenedl-ddyn* neu bagan. Mae yr holl genedloedd, gan nad beth eu cymmeriad moesol, yn yr Ysgrythyrau yn cael eu galw yn *bechaduriaid*, fel y mae pechadur a chenedl-ddyn yn aml yn eiriau cyfystyr. Gellir profi hyn tuhwnt i bob dadl ac amheuaeth. Dywed yr Apostol Paul wrth ysgrifenu at y Galatiaid (ii. 15):—"Nyni y rhai ydym wrth naturiaeth yn Iuddewon, ac nid o'r cenedloedd yn *bechaduriaid*." Mae'n ddigon amlwg fod St. Paul yma yn gosod allan yr holl genedloedd fel yn bechaduriaid, nid, wrth gwrs, o herwydd eu bod *oll* yn ddynion o *gymmeriadau drwg*, ond o herwydd eu bod yn gauedig allan o'r Hen Gyfammod, ac felly yn amddifad o'r breintiau hyny ag oedd Duw yn ei ddoethineb wedi roddi mewn cyflawnder mawr i'r Iuddewon. Yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid, er mwyn creu rhagfarn a chasineb yn meddyliau'r bobl at yr Iesu, a'i beient yn aml am fod yn "gyfaill y publicanod a'r pechaduriaid." A olygent wrth ddywedyd hyn, fod ein Hiachawdwr yn caru cyfeillach dynion drwg; ac wrth hyny, yn eu hanog yn eu drygioni? Na; ond yr oeddent yn ei gyhuddo o drosedd nemawr, os dim, llai erchyll yn ngholwg yr Iuddewon, sef cyfeillachu â chasglwyr trethi a chenedloedd—dau ddosparth o ddynion a ffieiddid i'r eithaf gan yr Israeliaid,—y casglwyr trethi o herwydd eu gwaith, a'r cenedloedd o herwydd eu gwehelyth. Felly hefyd, pan yr ydym yn darllen (Luc xix. 7)—"Fyned o Grist i mewn i letya at wr pechadurus," nid ydym i ddeall mewn un modd fod yr Iesu difrycheulyd yn eistedd i lawr, ac yn bwyta gyda dyn o *garacter drwg*, ond yn unig iddo gyfranogi o letygarwch cenedl-ddyn,—gweithred ag oedd yn yr amser hwnw yn drosedd neillduol yn erbyn yr Iuddewon, oblegyd nid oedd un Iuddew yn ystyried mai peth iawn oedd eistedd a bwyta gyda chenedl-ddyn. Gellid difynu llawer o enghreifftiau i'r un perwyl, ond y mae un yn neillduol na ddylid ei gadael ar ol, yn profi tuhwnt i bob amheuaeth fod y geiriau "cenedloedd" a "phechaduriaid" yn dermau cyfystyr. Dywed Crist yn Mat. xx. 19, pan yn son am y dyoddefiadau oedd yn ei aros ar law yr Iuddewon, "A hwy a'i traddodant ef i'r cenedloedd i'w watwar, ac i'w fflangellu, ac i'w groeshoelio;" ond gan siarad am yr un amgylchiad sobr a phruddaid, dywed wrth ei ddysgyblion mewn man arall (Mat. xxvi. 45), "Cysgwch bellach a gorphwyswch: wele y mae yr awr wedi nesàu, a Mab y dyn a draddodir i ddwylaw pechaduriaid." Dengys y ddau ddyfyniad uchod yn y modd mwyaf pendant, fod ein Harglwydd ei hun yn golygu yr un personau wrth genedloedd a phechaduriaid. O ganlyniad, wrth gyfarfod â'r gair pechadur, neu bechaduriaid, pan yn darllen yr Ysgrythyrau, cofied y darllenydd mai nid dynion drwg, anfoesol, sydd i'w ddeall bob amser,

ond cenedloedd neu baganiaid, ac y gelwid hwynt yn bechaduriaid gan yr Iuddewon mewn ffordd o ddirmyg neu sarhad.

Yn nesaf, os mai hyn yn aml yw ystyr y gair pechaduriaid, fel yr wyf wedi profi uchod, onid oes yma ryw help i ni ddeall pa beth, yn aml, yw ystyr y gair "pechodau" a gyfarfyddwn mor fynych yn yr Ysgrythyrau? Os wyf wedi llwyddo i brofi nad yw "pechadur" bob amser yn arwyddo troseddwr mewn ystyr foesol, y mae yn canlyn nad yw "pechod" hefyd bob amser yn drosedd neu yn ddrwg moesol. Yr ydym wedi gweled fod y cenedloedd, er mwyn eu dirmygu, yn cael eu galw yn bechaduriaid gan eu cymmydogion Iuddewig, nid ar gyfrif eu hanfoesoldebau, ond ar gyfrif y ffaith eu bod wedi eu cau allan o'r Hen Gyfammod, ac felly yn amddifad o'r breintiau a'r manteision deilliadwy oddiwrtho. Yn awr, pan nad yw'r cenedloedd mwyach yn cael eu galw wrth yr enw dirmygus hwn, a phan y dywedir fod eu pechodau wedi cael eu maddeu, y meddwl yw, nid fod eu heuogrwydd moesol wedi cael ei symmud ymaith (oblegyd nid ar gyfrif eu heuogrwydd moesol y galwyd hwynt erioed wrth yr enw hwn), ond yn unig eu bod wedi dyfod o 'stâd ddigyfammod i 'stâd o gyfammod, ac mewn canlyniad, i feddiant o freintiau a manteision o ba rai yr oeddent fel Cenedloedd hyd yma yn amddifad. Yn fyr, sonir am ddau fath o bechodau yn yr Ysgrythyrau—pechodau moesol a phechodau seremoniol; nid oes maddeuant i ddynion am y blaenaf heb edifeiriwch ac adnewyddiad buchedd; tra mae'r olaf yn cael eu dileu trwy broffes o ffydd yn Nghrist fel y Messiah, a derbyniad i mewn i'r Eglwys Gristionogol. Wrth ddarllen y Beibl, dylem ystyried yn ofalus pa fath bechodau a feddylir yn y manau hyny lle mae'r gair yn cael ei arfer, rhag ofn i ni gymmeryd y naill yn lle'r llall, a thrwy hyny wneuthur cam â'r awdwr ac â ni ein hunain. Pan yr ydym yn darllen y geiriau hyn, "Edifarhewch gan hyny, a dychwelwch, fel y dileer eich pechodau," y mae i ni ddeall mai *moesol* yw'r pechodau yma, ac mai trwy edifeirwch y maent i gael eu dileu; ond pan yr ydym yn darllen y *passage* canlynol, "Cyfod, bedyddier di, a golch ymaith dy bechodau," onid rhesymol i ni feddwl mai at ryw aflendid *seremoniol* y cyfeirir yn y fan hon, yr hwn a berthynai i bawb nad oeddent dan y Cyfammod Newydd, ond yr hwn oedd wedi cael ei olchi ymaith oddiwrth bawb oedd wedi cael eu derbyn i mewn i'r Eglwys Gristionogol trwy fedydd.

Er mwyn gwneuthur fy meddwl yn fwy dealladwy, gosodaf o flaen y darllenydd enghraifft neu ddwy lle mae'r gwahaniaeth hwn rhwng pechod a phechod, rhwng y seremoniol a'r moesol, fel yr ymddengys i mi, i'w weled yn amlwg. Wrth fwyta'r swper olaf, ac wrth roddi'r cwpan i'r dysgyblion, dywed ein Hiachawdwr, "Canys hwn yw fy ngwaed o'r testament newydd, yr hwn a dywelltir dros lawer, er maddeuant pechodau." Efallai fod y rhan fwyaf yn meddwl mai troseddau moesol a olygai Crist yma; ond tueddir fi i gredu mai seremoniol ydynt; oblegyd nid oes un prawf fod gwaed Crist o gwbl yn effeithiol i ddileu pechodau moesol, oddieithr i ni ein hunain edifarhau am danynt a'u gadael. Y cwbl mae ein Harglwydd am i ni ddeall oddiwrth

y geiriau yma yw, iddo Ef farw er mwyn diddymu yr Hen Gyfammod a sefydlu y Newydd, trwy yr hwn y mae pawb a ufuddhant yn cael eu golygu, nid mwyach yn Genedloedd ac estroniaid, ond yn feibion i'r Goruchaf yn rhinwedd breintiau gogoneddus yr Efengyl.

Gyda golwg ar Grist, dywed Pedr yn ei Epistol cyntaf (ii. 24), "Yr hwn a ddug ein pechodau ni yn ei gorph ar y pren." Yma etto, debygwyf, y mae i ni ddeall rhywbeth wrth y pechodau a ddug ein Harglwydd heblaw gweithredoedd drygionus dynion; oblegyd am y rhai hyn, dywed yr Ysgrythyr yn y modd mwyaf diamwys wrthym fod yn rhaid i ni eu dwyn ein hunain:—"Pob un a ddwg ei faich ei hun; pob un o honom drosto ei hun a rydd gyfrif i Dduw; yr enaid a becho a fydd marw; cyfiawnder y cyfiawn fydd arno ef, a drygioni y drygionus fydd arno yntau." Tystiolaeth bendant yr Ysgrythyr ynte yw, fod dynion yn gyfrifol am y pechodau a wnant yn erbyn y gyfraith foesol, ac oddieithr iddynt edifarhau, a dwyn ffrwythau addas i edifeirwch, y bydd yn rhaid iddynt ddyoddef y canlyniadau—"trallod ac ing i bob enaid dyn sydd yn gwneuthur drwg."

Tra yn y modd yma y mae yn rhaid i bob dyn ddwyn ei bechodau moesol ei hun, etto mae Crist wedi dwyn ein pechodau seremoniol; oblegyd Efe, trwy Ei farwolaeth ar y groes, a ddiddymodd yr Hen Gyfammod, yr hwn a gyfrifai bawb y tu allan iddo yn bechaduriaid, ac a sefydlodd y Cyfammod Newydd, yr hwn, o'r tu arall, sydd yn cyfrif pawb a gofleidir ganddo yn "saint."

Y mae amrywiol fanau ereill lle mae'r gair yn cael ei arfer ag y carwn alw sylw'r darllenydd atynt, pe byddai amser yn caniatau; ond yr wyf yn gobeithio fod yr ychydig fanau uchod ag wyf wedi sylwi arnynt yn ddigon i ddangos nad yw pechod bob amser yn dynodi *euogrwydd moesol*, ond yn aml y cyflwr hwnw yn mha un y dywedir, yn iaith y Beibl, fod pob dyn, pa un bynag ai Iuddew ai Cenedl-ddyn, tra y parhao i aros y tu allan i'r Cyfammod Cristionogol. Dim rhagor y tro hwn.

J. M.

JOHN STUART MILL.

Ganwyd John Stuart Mill Mai 20, 1806, yn Pentonville, Llundain. Mab ydoedd i James Mill, yr hwn oedd o amgylchiadau isel yn moreu bywyd; ond dygwyddodd ddyfod dan sylw Sir John Stuart, yr hwn a'i cynnorthwyodd i gael darlithiau gan Dugald Stewart ac ereill yn Edinburgh, i'r dyben o'i ddwyn i fyny yn weinidog i'r Eglwys Ysgotaidd. Yn fuan iawn, teimlodd ddiflasdod at y weinidogaeth, ac ymsefydlodd yn Llundain tua'r flwyddyn 1800 fel ysgrifenydd i newyddiadur, yn benderfynol o ymdrechu ennill digon at gynnaliaeth ei hun a'i deulu trwy ei ysgrifeniadau. Ennillodd ei dalentau gyfeillion iddo

yn fuan, a'r mwyaf enwog o honynt oedd Jeremy Bentham, gyda'r hwn y bu yn byw am flynyddau, ac i'r hwn yr oedd yn ddysgybl ffyddlon fel Athronydd. Dygodd allan o'r wasg ei *History of India*, tua'r flwyddyn 1820; ac er ei fod wedi trin yn lled drwsgl yr *East India Company*, cafodd ei osod mewn swydd yn yr *India House*, lle y daeth yn fuan i sefyllfa a'i galluogodd i dreulio y gweddill o'i fywyd mewn amgylchiadau cyssurus.

Hyd yma, yr oedd John wedi cael ei ddysgeidiaeth gan ei dad yn unig, fel y gwelwn oddiwrth ei *Autobiography* sydd newydd ymddangos. Darfu i swydd newydd y tad i'w rwystro i dalu y sylw gofynol i addysg ei fab; ond yr oedd ei amgylchiadau arianol wedi gwella, ac yn haf 1820, cafodd John ei anfon i Paris am tua blwyddyn a hanner; a threuliodd y gweddill o'i amser yn nghwmpeini Syr Samuel Bentham, brawd Jeremy Bentham. Yn gynnar yn y flwyddyn 1822, dychwelodd i Lundain, cyn ei fod yn llawn dwy-ar-bymtheg oed, i gymmeryd swydd yn yr *India Office*, yn y dosparth yr oedd ei dad yn arolygydd. Bu yno am bymtheg mlynedd ar hugain, yn llanw y gwahanol swyddi gyda gallu mawr, a chodedd yn raddol i'r sefyllfa fwyaf cyfrifol yn y ty. Er iddo gymmeryd swydd fel yma yn foreu, ni ddarfu ei hunanddiwylliant a'i addysg o dan ofal ei dad. Yr oedd yn astudio'r ieithoedd hen a diweddar, a gwahanol ganghenau athroniaeth. Mewn amser diweddarach, ymroddai i'w dysgu yn y boreuau, cyn myned i dreulio'r dydd yn yr *India Office*. Yn ystod prydnawnau'r haf, a'r gwyl-ddyddiau a allasai gael, yr oedd yn hynod am fyned ar deithiau pell allan i'r wlad i gasglu blodau a llysiau, er ei gynnorthwyo yn un o'i hoff fyfyrdodau, sef Llysieuaeth. Ymddengys ei fod wedi gweithio yn galed yn moreu ei oes, a chyda llwyddiant rhyfeddol, fel y gwelwn oddiwrth y ffaith fod Jeremy Bentham wedi ymddiried iddo ef, cyn ei fod yn ugain oed, y gorchwyl o barotoi ar gyfer y wasg, gyda sylwadau eglurhaol o'i eiddo ei hun, lyfr o'r enw *Rationale of Judicial Evidence*. Cafodd ei waith gymmeradwyaeth uchel gan yr awdwr, ac mae yn debyg mai dyma'r gwaith cyhoeddus cyntaf o'i eiddo. Ysgrifenai rhywun yn y *Times*, ar ol ei farwolaeth, fel y canlyn am dano:— "Y mae yn ein cof ei fod yn ddyn ieuanc hynod iawn, pan yn y flwyddyn 1824 y cymmerai y lle blaenaf, er yr ieuangaf o'r aelodau, yn y *London Debating Club*, yn yr hon gymdeithas yr ymgyfarfyddai llawer o enwogion yr oes i gystadlu â'u gilydd wrth drin pynciau pwysig y dydd. Ymgeisient am wybodaeth a gallu ymresymiadol, yn hytrach nag am ddawn ymadrodd; ac yr oedd y testynau mwyaf pwysig yn cael eu sylw difrifolaf." Bu cyfeillach dynion enwog a dysgedig fel Grote a Roebuck, ac ereill, mewn cymdeithas fel yr uchod, yn foddion i goethi meddwl yr athronydd ieuanc, a bu rhai o honynt yn gyfeillion mynwesol iddo trwy ei fywyd. Yr oedd rhai o honynt yn ohebwyr i'r *Westminster Review* a ddaeth allan dan olygiaeth y diweddar Syr John Bowring; a'r ysgrifenwyr penaf iddo oedd Bentham a Mill yr hynaf, ac yn fuan daeth John ei fab i uno â hwy. Yn mhen ychydig amser, cododd ymrafael yn nghylch y *Westminster Review*, a cychwynwyd cyhoeddiad chwarterol arall o'r enw *London Review*, gan

Syr William Molesworth, a gosodwyd John Stuart Mill yn olygydd. Yn ystod ei olygiaeth, daeth i gyffyrddiad â dynion enwog fel Carlyle a Coleridge.

Gan ein bod wedi dyfod i fyny at y rhan lenyddol o'i fywyd, nid annghymmwys fydd i enwi y rhai mwyaf adnabyddus o'i weithiau a ysgrifenodd yn ystod y pum' mlynedd ar hugain nesaf o'i fywyd. Ymddangosodd ei *System of Logic* yn 1843, a'r *Principles of Political Economy* yn 1848. Ni ddaeth dim allan ganddo am y deng mlynedd nesaf; ond y mae'n eithaf amlwg na fu'n segur, oddiwrth y llyfrau a gyhoeddodd yn y blynyddau canlynol. Ymddangosodd dwy gyfrol o *Dissertations and Discussions* yn 1857, a'r traethawd enwog hwnw ar Ryddid; *Utilitarianism* yn 1863; *Auguste Comte and Positivism* a'r *Examination of Sir William Hamilton's Philosophy* yn 1865; a'r unig beth a ysgrifenodd o bwys ar ol hyn ydoedd *Subjection of Women* yn 1869.

Yn 1858, ymneillduodd o'r *India House*, ac aeth i dreulio y gauaf i Avignon yn Ffrainc, gyda'r gobaith y byddai hyny yn foddion i gyfnerthu iechyd ei wraig, yr hon oedd weddw John Taylor, marsiandwr yn Llundain. Yr oedd hon yn fenyw dalentog iawn, a dywedai Mill ei fod wedi cael ei gynnorthwyo ganddi am dros ugain mlynedd yn ei ysgrifeniadau. Ond yr oedd y cynnorthwy yma yn awr i ddarfod. Bu farw Mrs. Mill yn Avignon, ar y 3edd o Dachwedd, 1858; ac ar ei bedd, y mae yr ysgrifen fwyaf hyawdl a chyffrous a ysgrifenwyd erioed. Mae llawer yn meddwl mai dynion sych, dideimlad, diserch, ydyw athronyddion tuag at eu teuluoedd a'u perthynasau; ond yr oedd John Stuart Mill yn brawf nad ydynt felly i gyd, beth bynag. Ni fu un erioed yn fwy tyner at ei wraig, ac ymddygodd fel tad tuag at ei lysferch; ac yn ei ewyllys, gadawodd y cwbl iddi, gan nad oedd iddo blant ei hun. Ar ol marwolaeth ei wraig, prynodd dŷ yn agos i'r fan y claddwyd hi, ac yno y treuliodd bron yr holl amser hyd ei farwolaeth. Eisteddai mewn ffenestr ag oedd yn gwynebu'r fynwent, ac yno y darllenai ac yr astudiai yn feunyddiol.

Yn amser y Rhyfel Cartrefol yn America, fel gellid dysgwyl, yr oedd Mill yn gefnogwr cryf i'r gogledd, a chydymdeimlai yn fawr â'r *Abolitionists*. Yr oedd bob amser wedi bod yn hoff o bynciau politicaidd, fel y tystia ei erthyglau; ond yr oedd fwy felly tua diwedd ei oes. Rhyddfrydwr i'r pen oedd. Yn 1865, cafwyd ganddo, trwy daer erfyniad yr etholwyr, sefyll fel ymgeisydd rhyddfrydol dros Westminster, a chafodd ei ddychwelyd. Darfu i'w araeth gyntaf yn y Tŷ ddangos ei allu i ddwyn i ymarferiad yr egwyddorion a ledaenai o'i lyfrgell, pan y cynnorthwyodd Mr. Bright ar Fesur Haint y Da mewn gwrthwynebiad i gynnygiad Mr. Lowe, sef y dylai y perchenogion gael iawn am yr anifeiliaid a fuasent yn cael ei difetha, rhag y buasent yn achos i ledaenu y pla.

Darfu i'r araeth yma, yn nghyd â'r areithiau hyawdl a grymus ereill yn ddiweddarach ar yr un pwnc, ddangos i'r Ty y dymher a'r yspryd gyda'r rhai yr oedd ef yn penderfynu gweithio allan ei swydd fel aelod o'r Senedd. Yr oedd ei araeth ar y *Reform Bill* a ddygwyd o flaen y Ty gan Mr. Gladstone yn 1866 yn cynnwys rhesymau mwy cryf o blaid

y Mesur nag a gynnygiodd neb arall. Yn Senedd-dymhor 1867, dygodd i mewn fesur ar *Women's Electoral Disabilities*, a thrwy hwn, mewn rhai ystyriaethau, yr enwogodd ei hun fwyaf, er iddo hynodi ei hun yn fawr pan y torodd allan mewn pwyllgor rai adranau o Fesur Diwygiad Mr. Disraeli. Er ei fod mor selog ag erioed, ac yn talu sylw mawr i'w swydd, etto ni siaradai ond pan y teimlai ei bod yn anhebgorol angenrheidiol, er mwyn rhoddi esampl i ereill llai galluog i gyflawni ei swydd fel "aelodau dystaw." Yn 1868, pan y dygodd Mr. Shaw-Lefevre gynnygiad mewn perthynas i "Hawliau'r Alabama," traethodd ei feddwl yn gryf ar y cam a wnaed gan Loegr tuag at yr Unol Daleithiau, a'r angenrheidrwydd o wneuthur ad-daliad digonol. Yn fuan ar ol hyn, gollyngwyd ymaith y Senedd, a therfynodd ei yrfa fel aelod Seneddol. Pan gynnygiodd ei hun i gael ei ail-ethol yn 1868, ni chafodd ei ddychwelyd.

Yn fynych y clywir dynion yn dweyd fod Mr. Mill, fel aelod seneddol, wedi bod yn hynod aflwyddianus. Mae wedi cael ei ddweyd a'i ail-ddweyd fod ffrwyth ei gynnrychioliad byr dros Westminster, yn brawf cadarnhaol nas gall athronydd, pa mor ddysgedig bynag y byddo, ddylanwadu ond ychydig neu ddim er hyrwyddo gwleidyddiaeth ymarferol. Ond y mae yn naturiol gofyn, pwy sydd yn dweyd ei fod wedi methu, ac yn mha beth y darfu iddo fethu. Yn awr, mae'n ymddangos yn eithaf amlwg mae'r dynion hyny ag sydd yn ffieiddio pob diwygiad a amddiffynai Mr. Mill yn ei ysgrifeniadau a'i areithiau, yw y rhai uchaf eu llef i haeru ei fethiant,—y dynion a haerant mai ffrwyth cynghrair twyllwyr a ffyliaid yw pob diwygiad; y dynion a wawdiant hawliau benywod fel rhywbeth ffol-dybus; y dynion a gredant y dylai amddiffynwyr Gwerin-lywodraeth ac amheuwyr crefyddol gael eu trin fel sorod pob dim.

Pan y mae dynion o'r fath hyn yn haeru fod Mill wedi methu, nid yw hyny yn un prawf na fu yn llwyddianus i ddwyn i ymarferiad yr hyn a amddiffynai yn ei ysgrifeniadau. Yn wir, y mae'n hytrach yn ddangoseg o'i lwyddiant, ac o'r eiddigedd a deimlai ei wrthwynebwyr o herwydd ei lwyddiant. Os methu yw bod yn anmhoblogaidd o achos honi gwerth ymarferol y golygiadau y treuliodd ei fywyd i'w hamddiffyn, yna yn wir fe fethodd Mill. Ond os yw llwyddiant gwleidyddwr i gael ei fesur yn ol y graddau y bu yn alluog yn bersonol i ddylanwadau ar gwrs gwleiddyddiaeth, ac i beri i blaid lynu wrtho, yna mae Mr. Mill wedi bod, yn yr ystyr helaethaf, yn llwyddianus. Pe b'ai wedi marw ddeng mlynedd yn gynt, a ydyw yn debygol y cawsai ei olygiadau ar Ddiwygiad Seneddol y fath dderbyniad a'r fath gydnabyddiaeth ymarferol a gawsant yn ystod y pum' mlynedd diweddaf. Pe na b'ai erioed wedi bod yn aelod o Dŷ'r Cyffredin, a fuasai pwnc Pleidlais Benywod y lle y mae yn awr? Oddiar yr amser y dygodd ef y pwnc i sylw, mae'r mudiad dros etholfraint benywod yn myned yn mlaen yn gyflym. Y mae rhan fawr o'r cynhwrf yn nghylch addysg y merched, i'w briodoli i'r argyhoeddiad ag sydd yn meddianu dynion y dylai benywod gael yr un chwareuteg â gwrywod yn mhob peth. Nis gellir yn hawdd orbrisio gwasanaeth Mr. Mill yn ei ym-

drech i wellhau sefyllfa cyffredin benywod. Drwy ei holl fywyd, ystyriai y cwestiwn yma o'r pwys mwyaf; ac y mae'r safle i'r hwn y bu yn offerynol i'w godi, yn ddigon o brawf fod ei yrfa fer fel seneddwr wedi bod yn eithaf llwyddianus. Rhoddodd alluoedd goreu ei feddwl, a blynyddau goreu ei fywyd at wasanaeth benywod.

Y mae'n un o nodau ofergoeliaeth fod etto yn arcs yn ein gwlad, er mor oleuedig ydym yn ymffrostio ein bod, nas gall y rhan fwyaf o bobl feddwl am y fath ddyn ond fel dyn digrefydd neu annghredadyn.

"There lives more faith in honest doubt,
Believe me, than in half the creeds."

Mewn pennill o waith Schiller, mae a ganlyn:—"I ba grefydd yr wyt ti yn perthyn? Nid i un a elli di enwi. A phaham nad wyt ti yn perthyn i un? Er mwyn crefydd." Mewn oes pryd y mae cymmaint o ddilyn ffasiynau, dyma ddyn na phlygai ei ben i'r grefydd boblogaidd, ac yn y man y clywir llefain ar ei ol,—"Inffidel," "Atheist," &c. Y mae hyn mewn gwirionedd yn gwneuthur gwawd o grefydd. Os ystyr annghrediniaeth ydyw y fath fywyd a arweiniodd, y nefoedd fawr a anfono ragor o Inffideliaid. Y gwir yw, nad oedd yn perthyn i un grefydd, am ei fod yn rhy grefyddol. Pan yn siarad yn nghylch pynciau mawrion ffydd a gobaith, dywedai:—"Ar y pethau hyn, nid oes un prawf cadarnhaol. Y mae yn wir nad ydym ni trwy brofiad yn gwybod dim am y meddwl ond yn ei gyssylltiad anianyddol, ond nid yw hyn yn un prawf nas gall fodoli heblaw hyny. Yr oll ellir ddweyd am ddyhead cyffredin y natur ddynol am anfarwoldeb, yw ei fod yn debygol o gael ei sylweddoli, ond y mae yn rhaid cael rhagor o gynnydd mewn gwybodaeth ddynol cyn y gellir ei brofi yn gadarnhaol. Nid oes dim wedi ei brofi,—y mae'r oll yn bossibl."

Y mae hon yn ymddangos yn ffydd wan yn ochr y gwybodaeth helaeth a glywir yn cael ei thraddodi dros bwlpudau llan a chapel am nefoedd ac uffern; ond credwn fod yn well gan y gwir ostyngedig eistedd i lawr yn ochr y meddyliwr yn ei anwybodaeth, a chyfaddef ei analluogrwydd i amgyffred yr anamgyffredadwy, a thraethu yr annhraethadwy. Darfu i Socrates unwaith dderbyn gwobr yn Athen am ei fod yn fwy ei wybodaeth nâ neb arall; a'r wybodaeth yn yr hon y rhagorai, oedd gwybodaeth o'i anwybodaeth ei hun.

I lawer yn yr oes hon, y mae bywyd John Stuart Mill yn ymddangos fel wedi ei dreulio yn ddifudd, yn debyg ag oedd yr hen fyd yn ystyried bywydau yr hen Wyddonwyr yn Alexandria, a dreulient ddydd a nos yn ofer i chwilio priodoleddau yr *ellipse*; ond yn mhen dwy fil o flynyddau ar ol hyny, gwnaeth eu hymchwiliadau egluro y gyfundrefn heulog; a thrwy eu llafur y mae'r llongau yn awr yn mordwyo o gylch y ddaear. Felly, pan y bydd ofergoeliaeth wedi ei llwyr ddifodi, daw dynion i werthfawrogi John Stuart Mill am ei ymdrechion i ddysgu beth sydd wybodaeth, a pheth na sydd wybodaeth, ac am eu dysgu pa fodd i edrych ar bethau yn eu lliw priodol. Dywedant

mai yn medd John Stuart Mill y gorphenodd un o fywydau sanctaidd hanesyddiaeth ; ac er ei fod wedi marw, ei fod etto yn llefaru.

"Only a sweet and holy soul
Hath tints that never fly,
While flowers decay, and seasons roll,
It lives, and cannot die."

T.

Y DIAFOL.

[1 Ioan, iii. 8; Heb. ii. 14.]

Pa beth, neu pwy bynag, yw y Diafol y sonir cymmaint am dano yn y Beibl, amlwg yw oddiwrth yr adnodau uchod ei fod i gael ei ddinystrio, efe a'i weithredoedd. Canys dyma, medd yr adnodau uchod, oedd dyben mawr dyfodiad Crist i'r byd. Y mae ynte o'r pwys mwyaf i ni wybod rhywbeth am y Diafol yn ogystal â gwybod rhywbeth am Dduw, am Gyfryngwr, ac am sefyllfa ddyfodol, &c. Oblegyd y mae gyda ni gymmaint o Feibl am y naill ag sydd gyda ni am y llall. O ganlyniad, y mae pwysigrwydd gwybodaeth o'r Diafol yn gymmaint â gwybod pwy yw Gwaredwr y byd. Nis gellir deall natur ac amcan marw y groes heb ddeall natur a chymmeriad y diafol,—"Efe a ysiga dy ben di, a thithau a ysigi ei sawdl ef." Gwyddom pwy yw yr "Efe" uchod, ac y mae eisiau i ni wybod pwy yw "Tithau."

Ein hamcan gaiff fod yn yr ychydig linellau a ganlyn, dangos pwy yw y Diafol, o ba le y daeth, a pha beth yw neu fydd ei dynged.

Y farn gyffredin am dano yw mai rhyw Fôd goruwchnaturiol, anfarwol, ac anninystriol ydyw; rhyw anghenfil dychrynllyd ac ofnadwy, â chynffon hir ganddo, traed fforchog, a chyrn rhyfeddol ar ei ben, dau lygad tanllyd, a'r olwg arno yn arswydus ac annyoddefol. Credir hefyd gan rai ei fod i ryw fesur yn hollwybodol, yn hollbresenol, ac yn hollalluog. Ei fod felly yn rhyw fath o dduw dychrynllyd ac ofnadwy o ddrwg, yn mesur ei nerth â'r Bôd Mawr anfeidrol a da, ar faes moesol y byd, ac hyd yn hyn wedi ac yn ennill *naw* o bob *deg* i'w fyddin, a'r tâl gânt ganddo am eu ffyddlondeb yn ei fyddin yw eu taflu i wlad y gwaeau a'r griddfanau, yno i gael eu rhostio, eu berwi, neu eu ffrio a'u poeni am dragwyddoldeb; ac efe (y diafol) yn frenin arnynt, yn eistedd ar ei orsedd frwmstanaidd!!

Gwareded yr Arglwydd di, ddarllenydd, rhag credu y fath athrawiaeth ofergoelus a pheryglus â hon yna. Ceir y geiriau "Diafol a Satan" yn lled fynych yn y Beibl. Gair Hebraeg yw Satan. Dywed Cruden mai ei ystyr yw "gwrthwynebwr, gelyn, neu gyhuddwr." Felly nid yw ystyr y gair yn profi fod Satan yn golygu yr hyn ag y

mae dynion yn gyffredin am i ni gredu ei fod. Deuwn i'r penderfyniad hyn wrth y defnydd a wneir o'r gair yn y gwreiddiol.

Y lle cyntaf y cawn ni ef yw Num. xxii. 22, "A dig Duw a ennynodd am iddo ef fyned: ac angel yr Arglwydd a safodd ar y ffordd i'w wrthwynebu (gwreiddiol satan) ef." (Gwel hefyd 32). Gwelwn oddiwrth yr adnodau hyn mai y "gwrthwynebwr," neu satan, yw yr Angel Santaidd. Gwel 1 Sam. xxix. 4, "Ac na ddeled i wared gyda ni i'r rhyfel, rhag ei fod yn *wrthwynebwr* (satan) i ni yn y rhyfel." 2 Sam. xix. 22, "A dywedodd Dafydd, beth sydd i mi a wnelwyf â chwi meibion Serfiah, fel y byddech i mi yn *wrthwynebwyr* (sataniaid)." 1 Bren. v. 4, "Eithr yn awr yr Arglwydd fy Nuw a roddodd i mi lonydd oddiamgylch, fel nad oes na *gwrthwynebydd* (satan) nac ymgyfarfod niweidiol." Etto, gwel 1 Bren. xi. 14, 23, 25. Gwelwn yma fod ein cyfieithwyr wedi cyflawni eu gwaith yn onest mewn cyfieithu y gair satan yn yr adnodau uchod yn *wrthwynebwr*.

Rhoddwn yma dair enghraifft (er y gellid rhoddi llawer yn ychwanegol, pe byddai ein gofod yn caniatau) i ddangos lle nad yw y gair wedi ei gyfieithu. Gwel 1 Cron. xxi. 1, "A Satan a safodd i fyny yn erbyn Israel, ac a annogodd Ddafydd i gyfrif Israel." Salm cix. 6, "Gosod dithau un annuwiol arno ef; a safed Satan wrth ei ddeheulaw ef." "Ac efe a ddangosodd i mi Iosua yr archoffeiriad yn sefyll ger bron angel yr Arglwydd, a Satan yn sefyll ar ei ddeheulaw ef i'w wrthwynebu. A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Satan, cerydded yr Arglwydd dydi Satan." Gwelwn wrth yr adnod gyntaf o'r tair uchod mai Duw yw y *gwrthwynebydd*, neu y Satan a safodd i fyny yn erbyn Israel. Er prawf o hyn, gwel 2 Sam. xxiv. 1. Yn yr ail adnod mae yn eglur mai yr un peth sydd i'w olygu wrth "un annuwiol" yn y rhan gyntaf a "satan" yn y rhan olaf. Gyda golwg pwy yw Satan yn y drydedd adnod (gwel Ezra iii. 2, 9; iv. 1, 5). Darllenwn y pedair pennod flaenaf o Zechariah. "Ac at angel yr eglwys yn Pergamos. Mi adwaen dy weithredoedd di, a pha le yr wyt ti yn trigo; sef lle mae gorseddfainc Satan," (Dat. ii. 13, 14). Yn nyddiau Ioan yr apostol yr oedd Pergamos yn enwog am eilunaddoliaeth, chwant y cnawd, a balchder, a phob math o annuwioldeb, gelynion y gwirionedd yn gryf ac yn lluosog, fel ag yr oedd yn briodol ei galw yn drigfa pechod, neu orsedd Satan, neu wrthwynebwyr y gwirionedd. "Wele y cythraul a fwrw rai o honoch chwi i garchar," (Dat. ii. 10). Pwy erlidiodd ac a garcharodd yr Apostolion yn herwydd eu ffydd? Onid gelynion y gwirionedd? Pechod yn y cnawd, yr hwn a elwir cythraul yn yr adnod. Gelwir Pedr a Judas yn Satan gan ein Hiachawdwr, am eu bod yn rhwystr iddo ac yn ei wrthwynebu, (Mat. xxvi. 23; Marc viii. 33.)

Gair etto am y Diafol. Tardda y gair hwn o'r Groeg *Diabolos*, a hwn o'r ddau air *dia* a *ballo*. Mewn cyfansoddiad, golyga croesi, myned dros, neu ar draws rhywbeth. Felly mae y gair Diafol neu *Diabolos*, yn gymhwys a phriodol i arddangos deddf pechod a marwolaeth, neu pechod y cnawd, neu natur lygredig dyn. Fe groesodd Adda y *llinell* a osodwyd o'i flaen gan ei Grëwr yn Eden, yr hon a

"Profwch bob peth : deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, CARIAD, A GWIRIONEDD.

CYFRES NEWYDD—CYFROL I.

1873-4.

ABERDAR:
ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, 16, COMMERCIAL PLACE.
1874.

CYNNWYSIAD.

Aifft a Chanaan, 33, 60, 85, 151, 203, 226
Amser a'i Bwysigrwydd - - - - - 156
Anerchiad y Golygydd - - - - - 1
Anhawsderau Ysgrythyrol - - - 265
Athrawiaethau Poblogaidd - - - - 91
Awstin, ei feddwl am Dduw - - - 238

Barddoniaeth, 24, 32, 48, 72, 96, 120, 144, 166, 192, 216, 240, 264, 284
Beddau - - - - - - - - - 139
Beibl a Gwyddor - - - - - - - 128
Beth ydym ni yn ddysgu - - - - - 252
Bywyd Trag'wyddol - - - - - - 217

Cadarn Sail Duw - - - - - - - 73
Cadwedigaeth - - - - - - - - 224
Cariad Cristnogol - - - - - - - 183
Cariad a Rhagluniaeth Duw - - - 197
Calfiniaeth ac Arminiaeth- - - - - 155
Camddarluniadau o Undodiaeth - -
Cofiant Syr John Bowring - - - - 9
Cofiant Horace Greeley - - - - 89
Credu a Phroffesu - - - - - - - 49
Crefyddau Ethnig - - 25, 80, 110, 128
Crefydd Rydd yn America - - - - 101
Crefydd a Duwinyddiaeth - - - - 258
Crefydd, Tybiau enwogion am, - - 256
Cyflafareddiad rhwng Teyrnasoedd 29
Cyflwr Peryglus - - - - - - - 257
Cynildeb - - - - - - - - - - 97

Darn Undodaidd - - - - 13, 35, 57, 130
Darnau Byrion, 46, 71, 95, 143, 166, 189, 215, 261, 282
Dechreu Blwyddyn - - - - - - 248
Diafol - - - - - - - - - - 173
Dinasoedd Hynafol- - - - - - - 211
Dŵw, Ei gariad a'i Ragluniaeth - - 197
Duwinyddiaeth a Chrefydd - - - - 258
Dyfalbarhad - - - - - - - - 104
Dyferyn Du - - - - - - - - - 175
Dystawrwydd yr Ysgrythyrau- - - 193
Dy winllan dy hun - - - - - - 280

Edrych i fyny - - - - - - - - 139
Enllib - - - - - - - - - - - 184
Esboniadau - - - 19, 47, 115, 213, 258

Ffermwyr, daliwch sylw - - - - 277
Ffordd i gysgu yn dda - - - - - 159
Ffydd yn Nghrist - - - - - - 135

Glan y Mor - - - - - - - - - 115
Gellionen - - - - - - - - - 106
Gohebiaethau - - -22, 71, 141, 166, 210
Gwleidiadaeth - - 15, 44, 92, 116, 163
Grymialydd, Llythyr, - - - - - 65
Gweddi y Diacon - - - - - - - - 154

Haelioni yn ei berthynas â'r Weinidogaeth - - - - - - - - - - 160
Hanesion 24, 119, 141, 164, 189, 215, 262, 283
Holiedydd - Yr, 70, 119, 165, 214, 239
Hydref - - - - - - - - - -

Joan D'Arc - - - - - - - - 183

Llyfr Corn - - - - - - - - - 68

Marwgofion, 20, 46, 69, 94, 117, 140, 164, 188, 212, 239, 262, 283
Merthyron, Dalen allan o Hanes y, - 230
Mill, John Stuart - - - - - - - 268
Myfi yw y Drws - - - - - - - 134

Newyn yr India - - - - - - - 278
Ni chaiff hi byth dd'od yn ol - - - 254
O'r Tafarndy i'r Lloerigdy - - - - 278

Paul - - - - - - - - - - - 5, 53
Paray le Monial- - - - - - - - 210
Pelicanod yr Aifft - - - - - - 181
Pleidlais y Member - - - - - - 286
Pregeth Effeithiol - - - - - - 178
Pregethwr Methodistaidd - - - - 17
Priodasau - - - - - - - - 45, 189
Profwch bob peth - - - - - - - 133
Rhagom - - - - - - - - - - 169
Rheolau Ymddygiad - - - - - - 41

Sylwadau ar y Darn Undodaidd - -
Tafod Enllib - - - - - - - - - 184
Temlwyr Da- - - - - - - - - 77
Trysorfa'r Gorthrymedigion - - - - 12

Undeb Efengylaidd, Yr, - - - - - 235
Undodiaid, Cefnogaeth iddynt, - - 241
Undodaidd, Ystyr a dylanwad y Symmudiad - - - - - - - - - - 62
Union in Diversity - - - - - 43, 208

Y Wers Annysgwyliadwy - - - - 232
Ymchwydd yr Iorddonen (Pregeth) - 145
Ysbryd yr Efengyl ac Ysbryd Calfiniaeth - - - - - - - - - - 206
Ysgrythyrau, Anhawsderau ynddynt, 121, 265
Ysgol Sul - - - - - - - - 47,210
Y newyn yn India - - - - - - 278

wahanai y dwyrain oddiwrth y gorllewin. O du y dwyrain i Eden yr oedd ffafr, heddwch â Duw, a bywyd tragwyddol yn ei aros; o du y gorllewin, nid oedd ond ofn, cywilydd, trueni, a marwolaeth. Ufudd-dod i'r ddeddf, dedwyddwch a bywyd tragwyddol fuasai y canlyniad. Anufudd-dod, neu groesi y llinell waharddedig, nid oedd ond gwg a digofaint Duw yn ei aros. "Efe a dynwyd ymaith gan ei chwant ei hun," i groesi, neu fyned heibio, neu ar draws deddf ei Grëwr gan ei "chwant ei hun," ac efe, sef ei "chwant," hyd y dydd heddyw, yw y *diafol* ag sydd yn parhau i groesi deddfau ei Dduw. Y mae y gair yn golygu hefyd "cyhuddwr" neu "enllibwr." Tybia rhai mai efe yw y "ddraig" y sonia Ioan yn Dat. xii. 9. Camsyniad mawr yw hyny. Darlleniad pwyllog o'r bennod a'n hargyhoedda mai nid y "nefoedd" goruwch y ser, trigfa yr angylion a gorsedd Duw sydd i'w olygu; mai nid "draig" lythyrenol a "ser" wybrenawl oeddynt. Y gweledigaethau rhyfeddol a welodd Ioan o ynys Patmos, y ddaear ydoedd y *platform* mawr ar ba un y cymmerasant le. Ymherodraeth Rufeinig ydoedd y "nefoedd," a Phaganiaeth a Phabyddiaeth ydoedd y "ddraig fawr," yr "hen sarph, yr hon a elwir Diafol a Satan," "mam puteiniaid a ffieidd-dra y ddaear." Pechod yn gorpholedig yn y "buttain," a'i "phlant" yw y Diafol y sonia Ioan am dano yn y bennod.

Tybir hefyd mai yr angylion y cyfeiria Pedr a Judas atynt yw y Diafol. (Gwel 2 Pedr ii. 4), "Canys onid arbedodd Duw yr angylion a bechasant, eithr eu *taflu hwynt i uffern*, a'u rhoddi i *gadwynau tywyllwch* i'w *cadw i farnedigaeth*." Sylwa, ddarllenydd, nad oes yn yr adnod yna ddim gair am "daflu allan o'r nefoedd i'r ddaear," dim gair eu bod yn "rhodio oddiamgylch gan geisio y neb a allant eu llyncu," fel y dysga dynion yn gyffredinol. Pwy bynag ydynt, y mae yn eglur eu bod (yn ol Pedr) yn "uffern, a'u rhoddi i *gadwynau* tywyllwch i'w *cadw i farnedigaeth*." Judas a ddywed (6 adn.), "Yr angylion hefyd y rhai ni chadwasant eu dechreuad, eithr a adawsant eu trigfa eu hun, a gadwodd efe mewn *cadwynau tragwyddol dan dywyllwch i farn y dydd mawr*." Dim gair gan Judas yma etto am yr angylion yn temtio dynion i bechu, ac yn rhodio fel "llew rhuadwy," &c., ond eu bod yn "*gaeth* dan dywyllwch, ac mewn cadwynau i *farn* y dydd mawr."

Gair etto am y Sarph, (Gen. iii. 1, 2). "A'r sarph oedd gyfrwysach nâ holl fwystfilod y maes y rhai a wnaethai yr Arglwydd Dduw, a hi a ddywedodd wrth y wraig, Ai diau ddywedyd o Dduw, ni ellwch chwi fwyta o bob pren yn yr ardd?" Y dybiaeth gyffredin yw mai y Diafol ar *lun* sarph sydd yma, am ei fod yn afresymol i ni gredu fod y sarph erioed wedi bod yn alluog i siarad, neu yn meddu peiriannau llafar, yn ol y desgrifiad a roddir yn yr hanes. Pa beth bynnag am hyny, ein dyledswydd ni yw credu Duw ar ei air, heb ofyn pa fodd, neu paham. Y ffaith yw i'r sarph siarad, neu y mae y Beibl yn gelwyddog. A gofynwn beth sydd yn fwy o rwystr i ni i gredu i'r sarph wneyd hyny yn fwy nag i'r asen wrth Balaam? Mae dyweyd mai y diafol neu Satan ar *lun* sarph ydoedd yn llawer mwy

afresymol, ac yn ffolineb o'r mwyaf, heblaw taflu anwiredd ar y Beibl.

Pwy oedd Satan Iob? Gelynion Iob, yn ddiamheu: holl dlodi a chystudd Iob; yr Arglwydd a'u dygodd arno. Dyma dystiolaeth Iob ei hun,—"Llaw yr Arglwydd sydd arnaf." "O'r Arglwydd y daeth hyn oll." (Iob xlii. 11; ii. 3; xix. 21.) Pwy oedd yn temtio yr Arglwydd Iesu Grist yn y mynydd? Feallai mai yr ymherawdwr ei hun ydoedd, neu rywun arall dan ei awdurdod. Nid oes rhaid i ni wybod pwy ydoedd yn bennodol, rhagor na gwybod mai temtiwr ydoedd. Y mae Duw yn arwain ei blant i brofedigaethau er eu profi. Felly yma, "Efe a arweiniwyd gan yr ysbryd." Nid yw fod y gair Satan a Diafol yn cael ei ddefnyddio yma yn profi ei fod yn rhyw angel drwg, neu ysbryd drwg a goruwchnaturiol, rhyw anghenfil dychrynllyd ac ofnadwy yr olwg arno. Y mae creadur o'r fath hyny yn anmhosibl gan Dduw. Nis gallai Duw oddef y fath fod fodoli, oblegyd "Cyflog pechod yw marwolaeth." Wyr y Beibl ddim yn y byd am ysbryd drwg, anfarwol ac anninystriol, yn temtio dynion i bechu, yn amddifadu dynion o'u hoeneidiau anfarwol, a Duw o'i ogoniant hanfodol. Chwedlau a thraddodiadau paganaidd ydynt, ac yn annheilwng o Air Duw. Pwy ynte oedd temtiwr yr Arglwydd Iesu ar y mynydd? Cyfaddefwn fod yn hawddach dyweyd pwy nad ydoedd na dyweyd pwy ydoedd. Nid oes dim yn afresymol mewn tybied mai un o angylion santaidd y nefoedd ydoedd; oblegyd gelwir yr angel glân hwnw a wrthwynebodd Balaam yn Satan; ac hefyd y mae y Bod Mawr ei hun yn cael ei alw felly, fel yr ydym wedi dangos yn barod.

Wrth derfynu, ni a wrandawn ar y Beibl yn atteb y gofyniad, Pwy yw y Diafol? "Yn niwedd y byd yr ymddangosodd efe i ddileu pechod trwy ei aberth ei hun" (Heb. xix. 26). "*I ddileu pechod*," neu yn ol Heb. ii. 14, "I *ddinystrio* yr hwn oedd a nerth marwolaeth ganddo, hyny yw diafol." Y diafol ynte yw pechod yn y cnawd, efe yw nerth marwolaeth. "Na ddyweded neb pan demtier ef, gan Dduw y'm temtir, canys Duw nis gellir ei demtio â drygau, ac nid yw efe yn temtio neb. Canys yna y temtir pob un, pan y tynner ac y llithier gan *ei chwant ei hun*. Yna chwant wedi ymddwyn a esgor ar bechod, *pechod* hefyd, pan orpheuer, a esgor ar *farwolaeth*." (Iago i. 12, 15.) "Colyn angau yw pechod, a grym pechod yw y gyfraith." (1 Cor. xv. 36.) "Trwy un dyn y daeth pechod i'r byd, a marwolaeth trwy bechod."

Gwelwn ynte mai dynion drwg a benywod drwg, neu bechod yn y cnawd, yw diafol penaf y Beibl.

Mount Pleasant, Abertawe. BENJ. BENNETT.

BEDD-ARGRAFF Y MORWR.

Iach hwyliodd i ddychwelyd—ond ofer
Fu dyfais celfyddyd,
Y môr wnaeth ei gymmeryd,
Ei enw a gawn—dyna i gyd.

J. J.

DALIED Y FFERMWYR SYLW!

Nid wyf yn galw eu sylw at ddim sydd yn dal cyssylltiad uniongyrchol â chodi tatws, a maip, a chloron, nac ychwaith â defaid a moch a dâ, nac â haidd a gwenith a cheirch; ychydig wn i am y cyfryw, nac am un gangen arall o amaethyddiaeth. Pe bawn i'n gallu dyweyd sut i godi dau fochyn lle codir un yn awr, neu sut i ddyblu'r cnydau ar y cae, ar yr un gost, yr wyf yn credu y cawn sylw mwyaf difrifol pob ffermwr sydd yn darllen Yr Ymofynydd; ond nis gallaf. Ac etto, yr wyf am ddyweyd peth sydd yn llawn cymmaint o bwys iddynt, ac yn dal perthynas llawn mor agos â hwy—mor agos mewn ystyr tymhorol hefyd. Mae yr hyn a berthyn i'ch plant yn perthyn i chwi. Gwyddoch fod y Senedd yn ddiweddar wedi pasio mesur fod yn rhaid i bob plentyn gael addysg. Cofiwch y gair *rhaid* yna. Pan byddo'r Senedd yn dyweyd rhaid, allwn ni ddim peidio gwrando; gallwn wingo, ond gorfyddir ni i ufuddhau, bydd perygl i ni beidio. Gall y mesur beri trafferth, mae yn debyg o wneyd hyny i lawer; ond cofier, daw mwy o drafferth trwy anufudd-dod. Ceisier deall ynte beth yw y mesur, a holer sut mae gweithredu. Ni ddaw y mesur i gyflawn rym hyd y dydd cyntaf o'r flwyddyn nesaf, ond y mae mewn grym oddi ar y dydd cyntaf o'r flwyddyn hon, mor bell a'i fod yn gofyn i'r plant i fyned i'r ysgol ar unwaith. Mae'r *Act* yn dyweyd yn blaen na chaiff dim un plentyn, ar ol y cyntaf o Ionawr nesaf, weithio mewn un modd ar un fferm, os na fydd wedi bod yn yr ysgol y nifer o weithiau gofynol yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae'r *Act* yn dyweyd pa nifer, ac mae gofyn i'r ffermwyr a'r *labourers* edrych atti, neu bydd eu trafferth a'u gofid yn bur gyffredin y flwyddyn nesaf. Y nifer o weithiau y rhaid i blant, rhwng 8 a 10, attendio'r ysgol yw 250, a phlant rhwng 10 a 12 yw 150. Mae'r boreu a'r prydnawn yn rhifo dau *attendance*. Ond wrth fyned i gyfrif, rhaid cofio am y Sadyrnau, y Suliau, a'r dyddiau gŵyl, ac ar ol tynu y rhai hyny allan, gwelant yr angenrheidrwydd a'r doethineb o beidio gadael y peth hyd ddiwedd y flwyddyn. Gofalu am yr *attendance* yn nechreu y flwyddyn fel ag i wneyd y *certificate* yn sicr, oblegyd heb y *certificate* ni ellir rhoddi gwaith y flwyddyn nesaf i un plentyn dan 12 oed. Bydd y sawl a roddo waith iddo yn agored i gosp a *fine*, y rhai a fyddant yn sicr o gael eu gweinyddu. Y mae ychydig o eithriadau yn cael eu nodi gan yr *act*. Os na fydd ysgol o fewn dwy filldir i dŷ y plentyn, ni wesgir am yr *attendances* gofynol, ond rhaid edrych a bod yn sicr yn nghylch hyn. Eithriad arall yw, os gall plentyn basio gofynion y *fourth standard* yn ol y *New Revised Code* i foddlonrwydd Arolygwr y Llywodraeth, gall gael *certificate* i ddangos hyny, a bydd y *certificate* hwnw yn ddigon yn lle yr *attendance* gofynol. Ond ychydig o blant ffermwyr a *labourers* dan 12 oed, a llai na hyny dan 10 oed, sydd yn ddigon o ysgolheigion i orchfygu anhawsderau y *fourth standard*.

Mae'r pwnc yma yn bwysig iawn i'r rhieni hyny ydynt yn arfer estyn tipyn ar eu huriau trwy ennillion eu plant. Collant hyn yn y dyfodol, os na ofalant am anfon eu plant, rhwng 8 a 12 oed, i ysgol briodol yn ystod y flwyddyn bresenol. Gwneler yr ymdrech angenrheidiol ynte, ac mewn pryd, a bydd addysg eu plant yn ennill iddynt mewn rhagor nag un ystyr.

Tubal Cain.

Y NEWYN YN INDIA.

Yr ydym yn darllen am newyn yn yr Ysgrythyrau, ac o bryd i'w gilydd yr ydym yn darllen yn y papurau am newyn mewn gwahanol fanau. Gartref yr ydym wedi bod yn rhydd o newyn am hir amser, a dylem fod yn ddiolchgar iawn am hyn. Yn 1846 y bu'r newyn yn yr Iwerddon o herwydd diffyg y tatws. Yn yr amser gynt yr oeddynt yn ddifrod dychrynllyd yn Ewrop, a hyny amryw weithiau bob canrif. Yn yr 11eg, 12fed, a'r 13eg ganrif yr oedd newyn yn y wlad hon unwaith bob pedair blynedd ar ddeg. Yr ydym wedi ymosod mor llwyddiannus arnynt yn awr, fel nad yw yn debyg y bydd iddynt byth ddychwelyd attom etto gyda'u nerth a'u llymdra arferol. Yn wir, y mae'n hadnoddau yn awr mor fawr fel nas gallasem yn y man gwaethaf ddyoddef oddiwrth brinder rhagor na thros ychydig amser, yn gymmaint ag y gallesid, yn y cyflwr presennol o wybodaeth, gyfarfod â'r drwg trwy gynnorthwy yr hyn y gall gwybodaeth fferyllol yn hawdd ei awgrymu i ni. Mae Syr John Herschell a Cuvier wedi dadgan eu hopiniwn, fod newyn yn sefyllfa bresennol gwybodaeth fferyllol yn beth ammhossibl. Trueni na allesid cyfleu y wybodaeth yma tuag at gyfarfod â'r newyn presennol yn yr India.

O'R TAFARNDY I'R LLOERIGDY.

Nid wyf yn golygu y pennawd uchod i fod yn *sensational*, yn yr ystyr o gyffroi teimlad yn unig. Mi ddymunwn yn hytrach fod y llinellau canlynol yn apelio, gyda pha nerth bynag fyddo ynddynt, at reswm a deall y darllenydd. Yr ydym yn byw mewn oes ryfedd, ac y mae dyledswyddau oes ryfedd yn ymwasgu arnom. Mae oes y tren a'r *telegraph* yn oes y byw cyflymaf a welodd ein byd ni erioed etto, ac y mae'r byw cyflym yma yn dwyn mwy o draul ar gorff a meddwl na'r dull o fyw yn amser y *coach* mawr a'r *mail-cart*. Yn rhyfedd mae yr hen fyd yma wedi myned yn mlaen yn y deng mlynedd diweddaf. Oes yr ymdrech, oes y cyflogau mawrion, oes yr ymgodi o'r llwch i filoedd o dlodion ydyw yr oes yma wedi bod. Ond ysywaeth, mae lle i ofni nad yw ddim wedi bod, gymmaint ag a ddylai, yn oes y cynilo, yn oes darparu yr haf erbyn gauaf bywyd. Os gallwn farnu y dyfodol wrth y gorphenol, gallwn farnu na phair hi ddim yn amser dda o hyd, y daw etto dro ar fyd. Mae rhod masnach yn troi yn ddibaid; tuag i fyny yn rhyfedd y mae wedi bod yn ddiweddar, ac mae meistri a gweithwyr wedi bod yn cael cyfleusdra i droi arian heibio o'r fath na chawsant erioed o'r blaen. Tebyg iawn fod llawer wedi gafaelu yn y cyfleusdra, ond y mae lle i ofni fod mwy, yn enwedig yn mhlith

y dosparth gweithiol, wedi ei esgeuluso yn druenus. Yn ol tystiolaeth rhai nid oes dim un o bob pump yn edrych at eu hennill ac yn ei ddodi heibio. Y tafarnwr sydd yn cael arian y pedwar arall, a *banker* canolig yw'r tafarnwr ar y goreu. Fel rheol nid oes gan y tafarnwyr ofal mawr ar yr eiddynt eu hunain. Er yn casglu yn rhwydd, mae yr arian yn eu dwylaw rywfodd yn cymmeryd edyn ac yn diflanu. Fel, ar y cyfan, y mae dynion yn cael eu tueddu i ammheu a ydyw amser da yn fendith i gyd. Mae'n wir ei fod yn galluogi'r doeth i wella ei sefyllfa, ond trist yw meddwl fod pedwar o bob pump nas gellir eu rhifo yn mhlith dosparth y doethion. Ai gwell ynte gwaeth fydd cyflwr y dosparth y pedwar yma o'u bod wedi cael huriau mawrion, pan fydd rhod masnach etto wedi troi ac amgylchiadau wedi myned yn isel? Mae huriau mawrion yn dda yn y cyfartaledd o weddill fyddo ar ol, pan fyddo holl angenion bywyd wedi eu cyfarfod. Ond pa ryfedd fod dynion yn colli eu synwyrau pan fyddont yn ei ystyried yn ddyledswydd arnynt i gario eu huriau, nad pa gymmaint fyddont, i'r tafarnwr! Cofier, nid clefyd yn perthyn i un dosparth yw colli synwyr. Clefyd aristocrataidd yw'r gowt, ac nid oes a fyno y werin bobl ag ef, etifeddiaeth pobl *respectable* ydyw. Ond eler i'r lloerigdy, a cheir yno wrrywod a benywod o bob dosparth. A chofier hyn, mae byw yn lwth yn ddinystriol i iechyd meddyliol yn mhob cyflwr bywyd, ac yr ydym yn cael nad yw effaith yr huriau uchel ddim wedi bod bob amser yn fendithiol yn y cyfeiriad yma. Rhywbeth rhyfedd ydyw yr ysfa sydd mewn un dosparth i epaeiddio arferion dosparth uwch, a hyny er dinystr iddynt eu hunain.

Un o'r adroddiadau mwyaf torcalonus a welais erioed yw adroddiad y *Glamorgan County Lunatic Asylum*, a ymddangosodd Mehefin diweddaf. Ceir yno, ar dystiolaeth anwrthwynebol, fod cyssylltiad agos iawn rhwng y tafarndy a'r lloerigdy, fod myned i'r naill yn fath o ragbarotoad i fyned i'r llall. Mae hyn yn beth pur bwysig, onid yw, ddarllenydd? Etto, nid haeriad yn unig yw, darllen di yr hanes a thyn dy gasgliad dy hunan. Nid trallod a gofid yw prif achosion coll synwyr, dim o'r fath beth. Gwir fod y meddwl ambell dro yn rhoddi ffordd o flaen y rhai hyn. Mae gweithio oriau hirion a cholli cysgu hefyd yn niweidiol. Ond y mae huriau mawrion ac amseroedd o esmwythyd yn ffrwythog o effeithiau mwy dinystriol fyth ar y deall, ac yn gwneuthur mwy na dim arall tuag at lanw y lloerigdy. Yn ystod chwe' mis olaf 1871, a thri mis cyntaf 1873, yr oedd *strike*, neu sefyll allan, yn y gweithiau glo a haiarn. Yn awr, sylwer, yn chwe' mis cyntaf 1871, derbyniwyd 47 o wrrywod a 30 o fenywod i'r *asylum;* ond yn chwe' mis olaf 1871 (misoedd y *strike*), ni dderbyniwyd ond 24 o wrrywod a 26 o fenywod. Yn y tri mis olaf o 1872, derbyniwyd 21 o wrrywod a 12 o fenywod; ond yn y tri mis cyntaf o 1873 (misoedd y *strike*), 10 o wrrywod a 12 o fenywod. Cawn felly brawf dwbl fod *strike* yn dwyn nifer y derbyniadau o wrrywod i'r *asylum* i lawr i'r haner, tra mae'r derbyniadau o fenywod yn parhau rhywbeth at yr un peth. Yn awr pa le mae chwilio am yr achos o hyn? Onid yw i'w briodoli i'r ffaith nad oes yn amser y *strike* ddim arian i'w wario

ar feddwdod a phob oferedd? Dywed Dr. Yellowlees yn mhellach ei fod hefyd yn cael fod cyffelyb leihâd yn y derbyniadau i garchardai y sir yn ystod y *strikes*. Felly, mae amseroedd llwyddiant yn amseroedd pan y mae mwy o droseddau a mwy o golli synwyr yn bod. Onid yw y rhai hyn yn ffeithiau tost a thruenus yn hanes ein bywyd cymdeithasol? Pa beth sydd i'w wneuthur yn wyneb y cyfryw ffeithiau? Y mae yn deilwng o'n hystyriaeth fwyaf difrifol. Dichon y gwna addysg rywbeth yn mhen amser, ac y gwna crefydd fwy. Ond y mae eisieu i ffeithiau fel hyn gael eu dwyn i wybodaeth y dosparth y perthynant iddynt: y mae eisiau defnroi ystyriaeth o'r canlyniadau, ac ystyriaeth o'u dyledswyddau fel aelodau cymdeithas. Y mae genym ein deall yn gystal a'n bywydau yn ymddiriedaeth, a dylem wneuthur y goreu o honynt. Os ydym yn ennill huriau mawrion, yr ydym yn attebol am y defnydd a wnawn o honynt. Os oes hawliau ac iawnderau yn perthyn i ni, mae dyledswyddau yn perthyn i ni hefyd. Y mae ymollwng i gyfeddach a meddwdod pan mae'r amser yn dda, a thrwy hyny lanw ein lloerigdai a'n carchardai, yn warth i'r oes yr ydym yn byw ynddi, ac yn drais ar weddeidd-dra ac ar foesau y genedl. Rhaid fod y pleserau hyny yn felldithion digymmysg, y rhai ydynt yn cynnyrchu effeithiau mwy dychrynllyd nag a gynnyrchir gan y newyn, y dyoddefaint, a'r tristwch a achosir gan y *strike*.

ALIQUIS.

DY WINLLAN DY HUN.

DYWEDIR yn rhyw fan rywbeth yn debyg i hyn:—"Gwnaethant fi yn wyliwr gwinllanoedd, ond fy ngwinllan fy hun nis cedwais." Felly y mae llawer sydd yn galw eu hunain yn Gristionogion y dyddiau yma yn treulio y rhan fwyaf o'u hamser i edrych ar, ac ymyraeth yn nghylch gorchwylion eraill, tra yn esgeuluso eu rhai eu hunain. Codant rawnwin melus yr ochr draw i'r ffin accw, ond nid yw y tir na'r ffrwythau yn perthyn iddynt hwy. Y maent byth a hefyd yn gwneyd yr ymchwiliadau manylaf yn nghylch eu cymmydogion, ond nid oes ganddynt ddim amser i holi eu hunain.

Gwyddom am rai o'r rhyw deg sydd yn treulio llawer o'u hamser i gasglu arian at sefydliadau dyngarol a'r genadaeth dramor, ac yn mynychu yn ddifwlch y cyfarfodydd cyhoeddus, tra y mae eu plant yn frwnt gartref, eu hosanau yn dyllau, eu meddyliau yn dywyll, a'u heneidiau yn cael eu nychu. Y maent yn *fusy* yn mhob man ond yn eu gwinllan eu hunain. Nid oes genym ni yr un gwrthwynebiad i'r menywod i dalu sylw dyladwy i sefydliadau dyngarol: rhy fach o sylw sydd yn cael ei dalu i'r peth mewn llawer o fanau, yn ddiau; ond nis gallwn lai na dweyd na ddylent wneyd felly tra y mae y sefydliad ac y dylent dalu mwyaf o sylw iddo yn cael eu esgeuluso. Nid oes genym ni yr un gwrthwynebiad iddynt gasglu arian i ddanfon cenadon i blith paganiaid Affrica i oleuo a Christioneiddio y brodorion; ond dywedwn na ddylent wneyd felly ar draul paganeiddio eu plant eu hunain. Sut y mae i ni gyfrif am fod yr hen saint, lawer o honynt â llai o

fanteision, yn well dynion nag ydym ni, gan mwyaf, y dyddiau yma ? Yr oedd ganddynt fwy o amser i fyfyrio, ac yr oeddent yn gwneyd y defnydd goreu o'r amser hwnw. Anfynych iawn y mae y lluaws yn eistedd i lawr a myfyrio, a dal cymmundeb â chwiliwr y galon a phrofwr yr aren. Gyru neu wthio yn mlaen y maent yn awr gyda chyflymdra mellten, braidd. Yr unig hoe maent yn gael yw yn yr *express train*, yr hwn sydd yn trafaelu deg milldir ar hugain yr awr, ac maent yn cwyno na buasai yn myned deugain milldir yr awr. Rhuthrant yn anystyriol i dŷ Duw, ac amgylchynant fwrdd yr Arglwydd heb feddwl dim am holi a phrofi eu hunain yn nghylch eu teilyngdod neu eu hanheilyngdod i gyfranogi o'r swper; ac allan yr ânt o'r cyssegr heb deimlo dim gwell wedi bod yno, ac ni feddyliant ddim yn ol llaw am y cynghorion fyddo wedi cael eu rhoddi iddynt. Y maent yn wrandawyr, ond nid yn wneuthurwyr y gair.

Yn awr dywedwn nad oes ganddynt yr un hawl i wastraffu cymaint o amser i graffu ar gnydiau eu cymmydogion tra yn esgeuluso eu cnydiau eu hunain. Hefyd, os arwynebol fydd eu crefydd, nis gall fod yn effeithiol er daioni; o'r tu arall, os ydym wedi bod gyda'r Iesu—wedi cymdeithasu gydag Ef, ac wedi yfed o'i yspryd Ef, ni a wnawn fwy o ddaioni mewn mis nag a wnelem mewn deg mlynedd wrth ei alw ef yn Arglwydd, Arglwydd yn unig.

Nid yw Cristionogaeth llawer o honom y dyddiau yma ond peth ffugiol trwy yr hwn y mae ereill yn medru edrych, ac nis gallant lai nag enwi ei henw priodol—twyll a rhagrith.

Y mae *drum* yn cadw swn mawr oblegyd ei bod yn wag, felly y mae Cristionogion anffrwythlawn yn siarad yn uchel am rinwedd a duwioldeb, tra yn amddifad o'r naill yn gystal â'r llall; ond y mae y gwir Gristion yn dawel, isel, gostyngedig, ac yn dylanwadu er daioni ar bawb o'i gwmpas. Ni waeth genym ni pa mor gryglyd ei lais, pa mor anmhrydweddol ei wynebpryd, neu pa mor wael ei wisg, na pha mor anmherffaith a chlogyrnog ei iaith, y mae fel perl nas gellir gosod pris arno. Wrth gymmeryd gofal priodol o'n gwinllanoedd ein hunain, yr ydym yn dysgu pa fodd i gynnorthwyo ereill i ofalu am yr eiddynt hwy. Os na allwn godi grawnwin yn ein gwinllanoedd ein hunain, nis gallwn eu codi yn ngwinllanoedd ein cymmydogion.

Y mae o bwys i ni ystyried y daw Arglwydd y winllan ryw bryd i'n galw i gyfrif, ac nis gwyddom na'r awr na'r dydd. Daw y cynauaf nad beth fydd. Pan oedd y grawnwin yn cael eu casglu yn nghyd yn yr hen amseroedd, yr oedd gorfoledd trwy'r holl wlad, a sain offer cerdd. Pa fath gynnyrch fydd gyda ni i ddangos yn y diwedd yn ein gwinllan ? Os ydym yn planu, yn trwsio, ac yn gwylied yn ofalus, sicr yw y bydd y cynauaf yn ogoneddus. Cawn yfed gwin o'r newydd yn nheyrnas Nef. Na atto Duw ein bod ni i gael ein gosod gyda'r anffyddloniaid, ond yn hytrach ar ddeheulaw y barnwr cyfiawn, yr hwn fydd i'n cyffesu a'n harddel fel ei eiddo. Na fydded y geiriau yma yn rhai a ellir eu cymhwyso gyda phriodoldeb at neb o honom, "Gwnaethant fi yn wyliwr gwinllanoedd, ond fy ngwinllan fy hun ni chedwais."

D. W. J.

Darnau Byrion.

Yr wyf wedi hir deimlo, hyd nes byddo tadau a mamau yn well dynion a menywod, nas gall ein hysgolion gyflawni ond ychydig mewn cymhariaeth. Yr wyf yn credu y gwnai unrhyw welliant a ellid ei ddwyn i ddylanwadu ar y *mamau*, yn fwyaf neillduol, effeithio llawer mwy o dda na dim sydd wedi cael ei wneuthur hyd yma.—*Earl Shaftesbury.*

Trin Cig.—Y peth goreu yw gwneyd y goreu o'r tamaid cig. Pan yn rhostio cig, yr ydym am gadw y *juice* i gyd i mewn. Am hyny rhaid caledu yr ochr allan, ac er mwyn hyn, gofaler cael tân disglaer da, a gosoder y *joint* yn agos atto am y deng munyd cyntaf, ac wedi hyny gellir ei gwcio yn raddol trwy ei symud yn mhellach. Er cadw y *juice* mewn cig berwedig, doder ef mewn dwfr berwedig am y deng munyd cyntaf, ac yna berwer yn raddol. Trwy hyn yr ydys yn cadw y rhinwedd i mewn yn y cig, a pheidio ei adael i redeg allan.

Yn ddiamheu, mae gan y cadarn grediniwr yn yr efengyl fantais fawr uwchlaw craill, am y rheswm syml hwn, os yw gwir, bydd iddo ei wobrwy yn y dyfodol; ac os na fydd un dyfodol, ni all ond bod gyda'r anffyddiwr yn ei hûn dragwyddol, ar ol mwynhau cynnorthwy gobaith dyrchafedig trwy fywyd, heb siomedigaeth, oblegid (a bod y gwaethaf iddo) ni all o ddim, ddim ddod, ddim hyd yn nod tristwch.—Arglwydd Byron, mewn llythyr dyddiedig 'Pisa, December 8, 1821.'

Beth Nesaf?—Mae'r *Interior*, papur y Presbyteriaid Calfinaidd, cyhoeddedig yn Chicago, yn ddiweddar wedi dywedyd y geiriau canlynol:—"Yr ydym yn credu fod rhai a ddaliant athrawiaeth adferiad a ânt i'r nefoedd, a bod gan rai Calfiniaid proffesedig, os na wnant ddiwygio ar eu hymddygiad presennol, siawns dda am fyned i uffern.

Mae y rhan fwyaf o ddynion, pan yn dyfod atoch i ymofyn cynghor, yn dyfod i gael eu hopiynau eu hunain wedi eu cadarnhau, ac nid wedi eu cyweirio.

Ennill a Gwario.—Nid pa faint mae dyn yn ennill sydd o bwys, ond pa faint mae yn safio. Mae dyn yn gyfoethog ar ennill bach, os o'r ennill bach y bydd yn gallu dodi ychydig heibio, a dyn arall yn llwm ar fil yn y flwyddyn, os bydd deuddeg cant yn angenrheidiol i gyfarfod â'i dreuliau. Dywedodd Dr. Price, Aberdar, yn Merthyr pwy ddydd, mewn cyfarfod ffarwel i weinidog, fod llawer gweithiwr mewn pum diwrnod yn yr wythnos yn ennill mwy na'i weinidog, ac yn gwario'r oll mewn dau ddiwrnod. Os yw gwir am y gwario yma, mae yn alarus meddwl. Nid yw yr ennill mawr o ddim lles os yn cael ei wario ar oferedd. Mae'r wenynen wrth ystorio yr haf erbyn y gauaf yn gwneyd yn gallach.

Ffordd Iachawdwriaeth. — Y mae'r Parch. J. M. Capes, yn ei lyfr newydd yn dwyn yr enw *Purgatory, Heaven, and Hell*, yn rhoddi syniad y gwahanol ddosparthiadau eglwysig ar y pwnc hwn. Athrawiaeth y rhai a alwant eu hunain y dosparth Efengylaidd yw cyfiawnhâd trwy ffydd yn unig; athrawiaeth y dosparth Uchel Eglwysig yw cyfiawnhâd trwy edifeirwch, gweithredoedd da, yn nghyd â chaffaeliad o ryw ras swyngyfareddol *(magical)* a dderbynir yn y sacramentau trwy gynnorthwy yr offeiriad; y mae y *Broad Church* (Eglwys Rydd) yn gwadu athrawiaeth Iawn Crist fel y desgrifir hi yn gyffredin, gan ddal ei bod yn priodoli i'r natur ddwyfol y mwyaf traws o nwydau dynol, a daliant fod Duw yn maddeu pob pechod ar delerau gwir edifeirwch, heb *ddemandio* gosod un gwrthrych i ddyoddef yn ein lle.

Hanesion.

Y CYFARFOD CHWARTEROL.

Cynnaliwyd cyfarfod chwarterol y Nadolig, yn Hen Dy Cwrdd, Aberdar, ar y 24ain a'r 25ain o Ragfyr, 1873. Dechreuwyd y cwrdd nos Fercher gan y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, a phregethwyd gan y Parchn. J. Evans, Gelli-onen, a W. Rees, Rhydygwin. Boreu drannoeth arweiniwyd y gwasanaeth crefyddol gan y Parch. D. Evans, Caeronen, a thraddodwyd dwy bregeth, y naill yn Saesneg a'r llall yn Gymraeg, gan Proff. Evans, Caerfyrddin, a'r Parch. W. Thomas, Llandyssul, i gynnulleidfa fawr ac astud. O herwydd fod yr amser wedi myned yn mhell. barnwyd mai doeth oedd peidio trin pwnc gosodedig y Gynnadledd, sef yr "Ysbryd Glan." Yn y prydnawn pregethodd y Parch. R. C. Jones, ac er i'r gwasanaeth y boreu fod yn hir, etto nid oedd y dyddordeb a deimlid yn llai yn y prydnawn, gan fod y capel yn mron yn llawn. Yn yr hwyr, dechreuodd Proff. Evans, Caerfyrddin, a phregethwyd gan y Parch. T. Thomas, Pantydefaid, a'r hybarch dad o'r Nottais. Ag ystyried fod yr hin mor anffafriol, cafwyd cynnulliadau lluosog iawn, yn neillduol boreu dydd Iau, pryd yr oedd y capel yn orlawn. Nid oedd ond un o'r gweinidogion Cymreig yn absennol, yr hwn ni allai ddyfod o herwydd amgylchiadau lleol nad ellid eu hebgor. Mae cyfarfod y Pasg i fod yn y capel Saesneg, Highland Place, Aberdar; y Parch. T. Thomas i bregethu. Pwnc y gynnadledd: "A ydyw dyn yn fôd syrthiedig, neu yn fôd anmherffaith."

Marwgofion.

Tachwedd 24, yn 77 oed, wedi byr gystudd, Mrs. Morgans, gweddw y diweddar Leyshon Morgans, Yswain, Tremains, ger Penybont-ar-Ogwy. Gan ei bod yn foneddiges mor garedig a chymmwynasgar, perchid hi yn fawr gan ei chymmydogion ac ereill adnabyddus o honi. Claddwyd hi yn *vault* y teulu yn mynwent Capel Aberpergwm, Cwmnedd.

Rhagfyr 1, Hannah, hoff briod Thomas Williams, Nottais. yn 34 oed. Gadawodd, heblaw ei gwr, dri o blant i alaru oblegyd ei cholli. Bu yn aelod am flynyddau yn yr Hen-dy-Cwrdd yn y lle uchod, a diau y gwelir ei heisiau yno yn bresenol. Claddwyd hi y Mercher canlynol yn mynwent eglwys y plwyf. Gweinyddwyd yn ei hangladd gan y Parch. Titus Lloyd.

Y 19 o Ragfyr diweddaf, bu farw Thomas Evans, Gof, Derlwyn, Llandyssul, yn 67 oed. Claddwyd ef y Llun canlynol yn mynwent Capel St. Dewi. Yn y ty cyn cychwyn o'r angladd, pregethodd y Parch. T. T. Pantydefaid. Dyoddefodd yr ymadawedig gystudd maith, ond yn amyneddgar a gobeithiol.

Ionawr 1, 1874, Anne Jones, 82 oed, gweddw John Jones, Ynysfach, Merthyr. Y Sul canlynol hebryngwyd ei gweddillion marwol i gladdfa'r Hen-dy-Cwrdd, Cefn, a gweinyddwyd gan Mr. Thomas Lloyd Jones ar yr achlysur oddiwrth Luc xvi. 2.

Ionawr 5, Mary, plentyn ieuengaf Mr. a Mrs. Griffiths, Mill Street, Trecynon, Aberdar.

Barddoniaeth.

MAMAU BLINEDIG.

Penelin bychan orphwys ar dy glin
Flinedig gan y beichiau trwm a ddyg;
A llygaid bywiog plentyn anwyl sydd
Yn syllu dan ymylon eurwallt myg.
Ni theimli, dichon, y sidanaidd law
Sy'n gwasgu'th fys, dan deimlad calon fyw;
Ni werthfawrogi fawr o'r fendith f•rth—
Rhy flin wyt, braidd, i blygu glin i'th Dduw.

Ond bendith yw! Rhyw fis yn ol, i mi
Nid oedd yn debyg i'r hyn yw yn awr.
Diddiolch y'm; ac mor hwyrfrydig i
Fawrygu gwenau haul nes ä i lawr;
Yn awr ymddengys mor rhyfeddol im'
Na buaswn tra yn famaeth fwyn ddigur,
Yn caru a chusanu mwy ar rudd
Y llanc na ddygodd im' ond mwyniant pur.

Ac os ryw nos tra'n gorphwys deui di
I weled eisiau'r elin bychan iach,
Y cyrliog ben anesmwyth ger dy fron,
Y tafod byr a'r hanner geiriau bach;
Os o dy law dy hun yr ä am byth
Y feinlaw fwyn fu'n nythu ynddi gynt;
Os yn ei beddrod oer y dodwyd hi,
Ni'th feiwn mwyach am dy chwerw hynt.

Nis gwn pa fodd gwna mynych gydiad llanc
Yn ngwisg ei fam ddwyn ar ei gruddiau wg;
Neu p'odd bydd ol ei droed ar arw hin
Mor frwnt a'i gwneyd i wisgo tymher ddrwg;
Pe esgyd fechan fawlyd gaffwn i,
Neu lodrau a berthynai iddo 'fe,
Neu gusan ar ei anwyl, anwyl droed,
Neu wrando'i swn yn symud hyd y lle:

Pe heddyw cawn gyweirio'i hoffus fen,
Yfory'r barcut papyr mawr ei fri,
Ni fuasai unrhyw wraig ar ddaear Duw'n
Fwy boddlon na dedwyddach na myfi;
Ond Ah! 'rwyf megys eos yn y gwydd
Yn athrist byncio uwch ei nyth dihedd,
A wnawd yn wag gan ryw adarwr traws:—
Mae'r llanc wnawn gynt gusanu, yn y bedd!

CYF. JENKIN HOWELL.

Y GAIR A'R DON.

Nid cymmaint pa beth a ddywedwch chwi,
A'r modd yn yr hwn a ddywedir;
Nid cymmaint yr iaith a ddefnyddiwch chwi
A'r dôn yn yr hon y trosglwyddir.

Gall y geiriau fod oll yn fwyn a theg,
A'r dôn megys saeth yn trywanu;
Y geiriau fel awel yr haf yn chweg,
A'r dôn beri'r galon i dori. R.

GWEDDIO.

Gwylaidd weddi'r galon,—a gryfha ddawn
Grefyddol y Cristion:
Saeth enaid â'n syth union
I'w man siwr,—sef mynwes Ion.

MERVINIAN.

EIN NODDFA.

CYFIEITHAD.

(Psalm xci. 4.)

Pan gwyd y gwynt a'r gwlaw pan ddisgyn,
Yn arwydd o'r ystorm gerllaw;
Ar edyn chwim, yn cyflym esgyn,
Yr adar ffônt i'r goedwig draw;
Dy blant O Dduw, dan flin ofidiau,
Fel hyn a gyrchant atat Ti,
Dy gariad O fendigaid noddfa,
Rhag pob rhyw ddrwg a'n cuddia ni.
Birkenhead. HYWEL AP HUW.

NATUR DDA.

I ni trwy ddoeth NATURDDA—gwir heddwch,
Gwareiddiad ddylifa;
O bawb, trwy hon, bob traha
Hedd-ddeifiol, ga'i lwyr ddifa.

Y fonwes yn llawn o fwyniant,—bair hon,
A breiniol ddiwylliant;
Goreu beth er gyru bant,
Suredd achosa soriant.

O'i choledd, yn wych hylon—dofa friw,
Duaf frad gelynion;
Ni chyfyd o hyd i hon,
Ddu efrau yn y ddwyfron.

Rhies hedd, lle'r erys hi,—nid oes ffrae,
Na dwys ffrwst na chyni,—
Na chrio croch rhai chwerw 'u cri
Ond iach iaith wedi'i choethi.

CYNONWYSON.

Jenkin Howell, Agerdd-Argraffydd, 16, Commercial-place, Aberdar.

YR

YMOFYNYDD.

Cyfres Newydd.] MAWRTH, 1874. [Rhif 13.

Profwch bob peth : deliwch yr hyn sydd dda.—Paul.

DYLEDSWYDDAU PLANT AT EU RHIENI.

Mae dedwyddwch pob teulu yn ymddibynu braidd yn gyfangwbl ar y gydnabyddiaeth a'r ymarferiad priodol o'r dyledswyddau hyny ag ydynt yn ddyledus oddiwrth bob aelod o hono, y naill at y llall. Er fod dyledswyddau rhieni at eu plant, a phlant at eu rhieni, yn gwahaniaethu yn fawr yn eu natur ; etto, ag edrych arnynt oddiar safon rhwymedigaeth foesol, mae y naill mor bwysig a'r llall. Heb y teimlad priodol o'r rhai hyn, ac o'r canlyniadau ydynt yn deilliaw o'u cyflawnu neu eu esgeuluso, mae perygl nid bychan y collir y dedwyddwch a'r cydgordiad hyny mewn teulu sydd yn cyfansoddi elfenau hanfodol pob cartref. Felly y mae fod gofal a phwyll yn angenrheidiol ar ran rhieni yn eu hymddygiad at eu plant, ac hefyd er sicrhau ymddygiad priodol eu plant tuag atynt hwythau. Gallwn, gan hyny, gasglu oddiwrth y sylw yna, fod addysg yn ofynol hyd y nod yn y pwnc yma, sef dyledswydd plentyn at y rhai a ddylent fod yn agosach ato, ac yn anwylach yn ei olwg, na neb arall. Ac mae yr addysg yma yn ffurfio rhan, a rhan bwysig, o'r dyledswyddau ydynt yn perthyn i rieni i'w cyflawnu.

Yn awr, yn mha beth mae hon yn gynnwysedig? Yr ydym yn gwybod fod dirgelwch mawr bywyd teuluaidd yn gynnwysedig, gan mwyaf, mewn fod yr addysg yn cael ei chymhwyso yn ddoeth ac yn briodol ; ac os bydd hyny yn cymmeryd lle, mae yn y teulu hwnw elfenau ar waith a'i cyfnewidia bob yn dipyn i fod yn nefoedd fechan ar y ddaear. Nid oes un nefoedd heb gariad. Tynwch gariad allan o'r byd, ac ni fydd dim yn aros ond anialwch gwyllt ac anffrwythlawn. Cariad yw prif ysgogydd a gallu cynnyrchiol y byd cymdeithasol. Yn nyfnder pob calon ddynol, mae ffynon o'r hon y tardda yr

elfen ddwyfol yma. Amcan blaenaf pob tad a mam ddylai fod i ddeffroi ac i feithrin y teimlad hwn yn eu plant. Mae cariad nid yn unig yn derchafu ac yn puro y ffynonell o'r hon y tardda, ond mae yn gwasgar ei ddylanwad dwyfol ar bawb oddiamgylch. Nid yw gwir gariad byth yn colli ei wobr yn gyfangwbl. Gall beidio cael ei werthfawrogi i'r mesur mae yn deilyngu, etto nid yw byth yn methu enyn rhyw wreichionen, nad pa mor fechan, o deimlad cyfatebol yn y rhai sydd yn wrthddrychau o hono. Nid yn unig mae yn derchafu ac yn cyfoethogi y person sydd yn ei deimlo, ond mae ei swynion yn dwyn eraill dan ei lywodraeth. Ymestyna cylch ei ddylanwad yn barhaus. Pwy all brisio ei allu? Pwy all wrthwynebu ei swyn? Can felused â thelyn Orpheus, gall ei gerddoriaeth dawelu mynwes yr anwariad. Yn gryf ac yn ddiysgog fel y graig, gall atal ymchwydd cystudd a thrallod rhag gorlifo yr enaid. Fel y llong sydd yn cludo ei llwyth o fodau dynol dros y tonau geirwon, gall eu glanio yn ddyogel yn yr hafan dymunol. Gall cariad, pan wedi ei ysprydoli gan ffydd, a'i gymhell yn mlaen gan frwdfrydedd sanctaidd, hyd y nod achub y colledig. O! rieni, meithrinwch gariad yn nghalonau eich plant. Ac mae yn rhaid i chwi wneyd hyn yn gyntaf, trwy ei dynu allan atoch chwi eich hunain fel gwrthddrychau blaenaf. Na fydded iddo, er hyny, gael ei sylfaenu yn unig ar eu teimladau hwy o'r amddiffyn a'r gofal ydych chwi wedi estyn tuag atynt o'u mebyd. Na fydded iddo orphwys ar nerth cig a gwaed. Mae perthynas deuluol yn bwysig ac yn gyssegredig; ond nid yw y teimlad o'i rhwymedigaeth mor ddwfn pan nad yw yn cael ei gyfnerthu gan gynneddfau moesol y natur ddynol ydynt yn cyffroi y teimladau uwch a mwy urddasol. Rhinweddau rhieni sydd yn cyffroi edmygedd y plentyn mewn blynyddoedd dyfodol, ac yn gadael yr argraff ddyfnaf a mwyaf parhaus. Mae cymmeriad plentyn yn sylfaenedig ar eiddo ei rieni yn ei agweddau mwyaf hanfodol. Y cread yn unig fu yn dyst o ddadblygiad gwreiddiol y natur ddynol. Byth oddiar hyny, mae wedi bod yn adgynnyrchiad o gynlluniau oeddynt yn bodoli yn flaenorol mewn ffurf mwy neu lai gwahanol. Yn nghymmeriad plentyn, gallwn olrhain, ar un llaw, neillduolion moesol a meddyliol ei rieni; ac ar y llaw arall, gwelwn ynddo y nodweddion ag mae cymdeithas a'i gydgreaduriaid wedi argraffu ar ei gymmeriad; ond y dylanwadau a gynnyrchir ar yr aelwyd gartref ydynt y mwyaf amlwg a nerthol yn eu hargraffiadau, a'r rhai ydynt yn myned bellaf i roddi cyfeiriad i fywyd y plentyn. O ganlyniad, nis gall rhieni fod yn rhy wyliadwrus yn eu moesau ac yn eu hymddygiad, os ydynt yn dymuno i'w plant dyfu i fyny yn aelodau teilwng mewn cymdeithas. Y ddyledswydd uwchaf sydd yn gorphwys ar bob tad a mam Gristionogol yw arwain eu hunain, a chefnogi yn eu plant fywyd pur, syml, a rhinweddol. Purdeb calon, purdeb geneu, a phurdeb ymddygiad, ddylent fod yn angylion yn gwylied dros bob cartref. Mae gan rieni hawl i ofyn oddiwrth eu plant y rhinweddau hyny ag maent hwy eu hunain yn ymarfer â hwynt; tra nad oes gan rieni drwg un gallu i gynghori nag i geryddu eu plant pan maent yn troseddu.

Wrth fod plant yn ymgynnefino à golygfeydd o duedd lygredig ac anfoesol, mae eu teimlad o'r hyn sydd yn bur ac yn iawn yn raddol yn pylu, a tueddir hwy fwy-fwy i wyro oddiar ffyrdd rhinwedd. Mae esamplau fel hadau wedi eu gwasgar yn mhob cyfeiriad. Maent yn gwreiddio yn gadarn, yn tyfu i fyny, ac yn dwyn ffrwyth da neu ddrwg, yn ol eu natur. Mae arferion neillduol yn cael eu ffurfio yn anymwybodol; ond mewn amser, maent yn dyfod yn nodweddion sefydlog yn y cymmeriad. Felly, mabwysiada y plentyn heb yn wybod iddo egwyddorion ac arferion ei rieni. Yr hyn maent hwy wedi ei wneyd, trwy orchymyn ac esiampl, dyna fydd ei gymmeriad yn ei fywyd dilynol. Gellir yn wir ddweyd fod plant yn dwyn gyda hwy gyfrifoldeb pwysfawr a chyssegredig, ac mae yn gweddu i rieni i ystyried ac i sylweddoli pwysigrwydd yr ymddiriedaeth sydd yn gorphwys arnynt wrth ddwyn i fyny eu plant.

Yn y sylwadau blaenorol, yr ydym wedi ceisio nodi y dylanwad a gynnyrchir ar gymmeriad y plentyn gan ymddygiad ei rieni yn eu bywyd moesol a chymdeithasol. Yn awr, awn yn mlaen i ystyried beth yw dyledswyddau plant at eu rhieni yn rhinwedd eu perthynas y naill at y llall, a phaham y mae gan rieni fwy o hawl na phobl yn gyffredin, ar gariad, ufudd-dod, a pharch eu plant; ac hefyd y daioni sydd yn deilliaw oddiwrth gyflawniad ffyddlon a chydwybodol o'r dyledswyddau sydd yn gorphwys ar blant tuag at eu rhieni, a rhieni at eu plant.

O flaen pob peth arall, dylai plant mewn teulu fod yn esamplau o *ufudd-dod* parod a serchus. Gwae i'r ty hwnw lle y beiddia ewyllys y mab neu y ferch godi mewn gwrthryfel yn erbyn y penteulu. Lle nad oes ymostyngiad priodol i awdurdod, nis gall y drefn a'r tangnefedd hyny fodoli ydynt yn hanfodol i ffyniant a chysur cymdeithas. Gan nad oes un deyrnas yn ddyogel heb ufudd-dod, mae yr un peth yn angenrheidiol er gwneuthur cyssylltiadau teuluol yn gadarn ac yn barhaus. "Ty wedi ymranu yn ei erbyn ei hun ni ddichon sefyll." Ni ddylai balchder a hunan-ewyllys byth rwystro plentyn rhag cydsynio ag ewyllys ei rieni. Mae ei hawddfyd mewn bywyd yn ddwfn yn eu calon. Cariad yw cymhelliad bywiol eu holl weithredoedd. Dylai llais cydwybod y plentyn ei ddysgu mai ei ddyledswydd yw ymostwng yn barod i'w gofynion, a rhoddi i fyny iddynt hwy yn mhob peth. Mae yn rhaid i ufudd-dod, er bod yn effeithiol ac iachus yn ei ddylanwad, fod yn ddidwyll. Dylai fod yn ffrwyth ewyllys da, ac yn offrwm o ddiolchgarwch. Nid yw gwarogaeth allanol ond o ychydig werth. Mae dirmyg yn bechadurus, ac nid yw trin rhieni gydag anmharch a difaterwch yn llai felly. Mae yr Ysgrythyr yn dweyd, "Melldigedig yw yr hwn a ddirmygo ei dad neu ei fam." Nid oes dim sydd mor annyoddefol, dim sydd yn teilyngu cael ei gashau gymmaint, yn neillduol mewn plant o oedran addfed, ag ymddygiad rhyfygus a thrahaus tuag at rieni. Mae gonestrwydd ac hynawsedd yn rasusau melus a swynol yn mhob plentyn.

Hefyd dylai *ymddygiad gweddaidd* at rieni mewn dull ac ymddiddan gael sylw priodol. Mae anmharch oddiwrth blentyn yn clwyfo yn fwy

poenus deimladau tad neu fam na phe buasai wedi dyfod oddiwrth rywun arall. Mae rhieni hefyd yn fwy parod i deimlo o herwydd diffygion yn eu plant nag ydynt o herwydd diffygion dynion ereill. Nid oes un dyddordeb yn debyg i'r dyddordeb ag mae rhieni yn deimlo yn eu plant. Mae gan hyny yn brofedigaeth boenus iddynt i weled fod eu hawdurdod yn cael ei dirmygu, ac nad oes un sylw yn cael ei wneyd o'r parch sydd yn ddyledus iddynt ar ran y rhai sydd yn dal y fath berthynas a hwy, ac oddiwrth y rhai, mewn modd neillduol, y gallant ddysgwyl parch ac ufudd-dod.

Mae *diolchgarwch* etto yn nod arall mewn plentyn na ddylid ei hesgeuluso. Mae y brenin Lear, druan, yn Shakespeare, wrth weled mor anniolchgar oedd ei ddwy ferch, yn crio allan yn chwerwder ei galon :

> "Oh! sharper than a serpent's tooth
> It is to have a thankless child."

Mae yn rhaid ei bod yn wir yn brofedigaeth chwerw i rieni i weled nad yw yr holl gariad a'r gofal maent wedi wastraffu mewn tynerwch ar eu plant o'u mebyd, ddim wedi cyfrwrdd a thannau eu calonau—nad oes un wreichionen o ddiolchgarwch wedi ei gynneu yn eu heneidiau. Mae y teimlad anniolchgar mewn unrhyw ddyn yn ei rwystro rhag mwynhau rhai o deimladau melusaf y natur ddynol. Mae yn dynodi tylodi enaid—amddifadrwydd o allu i werthfawrogi daioni a charedigrwydd. Mae ffafrau beunyddiol yn derbyn ad-daliad gwael a chywilyddus oddiar law anniolchgarwch. Diofalwch a dirmyg yw ei nodweddion cyffredin, ac o herwydd hyny dylai gael ei ochelyd. Mae teimlad diolchgar, o'r ochr arall, yn rhinwedd. "Mae yn bendithio yr hwn sydd yn rhoddi a'r hwn sydd yn derbyn." Ond i rieni deimlo fod eu hymdrechion ar ran eu plant yn cael eu gwerthfawrogi, ni fyddant yn dymuno rhagor o wobr, ac ni ofynant am reswm mwy nerthol dros wneuthur ymdrechion ychwanegol. Ond nid yw y teimlad o ddiolchgarwch yn elfen arosol a difywyd, cyfyngedig i'r dyn ei hunan; mae yn rhaid iddo fod yn fyw ac yn symmudol. Mae yn annog i weithgarwch. Fel ager, mae yn rhaid iddo gael *rent* i wneyd ei waith. Dengys y teimlad yma ei hun trwy fil o ffyrdd bychain yn ngwahanol gyssylltiadau y bywyd cartrefol. Mae achlysuron yn dygwydd bob dydd yn y rhai y gall plant ddangos diolchgarwch tuag at eu rhieni. Pa mor ychydig bynag all plentyn wneyd, os ydyw yn ei wneyd yn barod ac yn siriol, bydd hyny o bwys mawr yn ngolwg ei rieni. Yn yr ewyllys, ac nid yn maintioli y gwaith a wneir, mae y gwir werth yn gynnwysedig.

Hefyd mae *onestrwydd*, mewn pob gwaith anrhydeddus yn cynnwys rhan bwysig o ddyledswydd plant. Dywed Pope :—"An honest man's the noblest work of God." Nid yw y gair onestrwydd i'w gyfyngu i un ystyr yn unig. Mae yn cynnwys cywirdeb amcan, purdeb meddwl, gair, a gweithred. Mae symledd a didwylledd yn cuddio lluaws o feiau. Nid oes dim sydd yn fwy adgas nag anian gyfrwys a lladradaidd. Nis gall ffalsedd a ffydd gydfyw a'u gilydd. Dylai ymddygiad

plentyn fod i gyd yn agored. Pwy sydd yn fwy parod i faddeu unrhyw goll na'r tad neu y fam, os bydd y plentyn yn ei gyfaddef gyda gwir edifeirwch? Pwy sydd yn teimlo mwy dros ddaioni y plentyn? Bydded i blant gael eu hennill i edrych i fyny at eu rhieni gyda chariad llawn o ymddiried. Wrth rieni dymunem ddweyd,—

"Llifed cariad trwy bob gweithred,
Boed addfwynder yn mhob gair."

Na fydded i unrhyw driniaeth arw, unrhyw ymddygiad anhynaws, wywo ymaith y serch hwnw ddylai gymhell y plentyn gyda llawenydd i amlygu ei holl feddyliau i'r rhai a ddylent fod ei gynghorwyr blaenaf, ac ar amddiffyn a chyfarwyddyd y rhai y gall ymddibynu gyda'r sicrwydd o dderbyn y cymhorth a'r cydymdeimlad gofynol oddiwrthynt. Gwyn eu byd y plant hyny ag sydd ganddynt rieni yn y rhai y gallant osod eu holl ymddiried yn ddiofn a'r rhai ydynt yn deilwng o serch dyfnaf a mwyaf angerddol eu calonau. A dedwydd yw y rhieni hyny ydynt yn gweled yr had da yn cael ei hau gan law doethineb a chariad, ac yn dwyn ffrwythau diolchgarwch, parch, ac ufudd-dod.

Yn ddiweddaf, mae *diwydrwydd* yn un o'r amddiffynfeydd cadarnaf yn erbyn drwg.

"Daw Satan â rhyw waith i'w wneuthur,
Bob awr o'r dydd i ddwylaw segur."

"Cerdda at y morgrugyn, tydi ddiogyn; edrych ar ei ffyrdd ef, a bydd ddoeth." Mae plentyn sydd a thuedd ynddo at arferion diwyd yn obaith ei rieni. A phan y maent yn ychwanegol at hyny, yn ei weled yn gwrteithio tymher garedig a chydymdeimladau rhyddfrydig, ac yn cael ei nodweddu gan hynawsedd a thynerwch teimlad, mae eu hofnau mewn perthynas i'r dyfodol, gan mwyaf, yn cilio ymaith. Mae pryder ac anesmwythder yn rhoddi lle i ffydd a boddlonrwydd.

Yr ydym yn dyfod yn awr at y cwestiwn:—Ar ba seiliau mae gan rieni hawl neillduol i gariad, ufudd-dod, a serch eu plant. Os tynwn ni ymaith y llên sydd yn ein gwahanu oddiwrth y gorphenol, ac os myfyriwn ar y darlun a ddangosir yno, y fath hunanymwadiad, y fath aberth, y fath gariad a phryder sydd yn dyfod i'r golwg. Mae y gofal gwyliadwrus a'r caredigrwydd ag mae plant yn wrthddrychau parhaus o honynt yn gofyn y serch mwyaf angerddol. Ac nid mewn mebyd yn unig mae gofal pryderus a serchus y tad a'r fam yn cael eu dangos. Nid yw y greadigaeth ddireswm yn meithrin ac yn amddiffyn ei hiliogaeth, ond yn unig yn ystod yr amser maent mewn sefyllfa hollol ddigymhorth. Ond nid felly rhieni dynol. Fel mae amser yn ymrolio yn mlaen, a gwendid plentyndod yn rhoddi lle i gryfder a nwyfiant ieuenctid mae pryder rhieni doeth ac ystyriol yn lle myned yn llai, yn cynnyddu. Maent yn ofni y gall cyssylltiad agos â ffyrdd y byd, a swynion ei bleserau fod yn brofedigaethau anwrthwynebol i'w plant i lithro oddiar lwybrau rhinwedd a dyledswydd. Nid oes un cyfleusdra

yn cael ei esgeuluso er cyfnerthu eu teimlad o brydferthwch bywyd pur a rhinweddol, ac er dangos canlyniadau dinystriol ymddygiad anweddaidd a phechadurus. Gosodant eu holl feddyliau ar waith i gynllunio ffyrdd er amddiffyn eu hanwyliaid rhag dylanwadau hudol a pheryglus cymdeithas, ac i'w cymhell i ddilyn y llwybr sydd yn arwain i anrhydedd a thangnefedd. Marw, yn wir, i bob egwyddor a theimlad yw y rhai, er eu bod yn ymwybodol o agosrwydd eu perthynas i'w rhieni, ydynt yn dibrisio yr hawliau sydd ganddynt i'w hufudd-dod, eu parch a'u cariad. Os ydyw llais distaw main rhybudd a cherydd yn awr yn cael ei esgeuluso, fe ddaw amser, yn gynnar neu yn ddiweddar, pan y myn ei ffordd er gwaethaf pob rhwystr. Gwae y pryd hwnw i'r troseddwr. Nid yw poen corfforol, pa mor llym bynag y byddo, yn ddim mewn cymhariaeth i arteithiau cydwybod euog. Mae meddwl anesmwyth yn cael ei flino yn wastadol gan ddrychiolaethau a grëir gan ei ddychryn ei hun. Y fath drysor anmhrisiadwy sydd yn eiddo iddo ef ag mae ei galon yn rhydd oddiwrth dwyll, a'i weithredoedd wedi bod bob amser yn bur ac yn gyflawn. Mor hyfryd ydyw teimlo wrth edrych yn ol ar yr hyn sydd wedi myned heibio o'n bywyd nad ydym wedi andwyo heddwch a chysur cartref ein ieuenctyd trwy ymddygiad anmhriodol. Pa faint o blant o herwydd eu tueddiadau anystyriol ac anufudd sydd wedi dwyn anrhaith i galonau eu rhieni, ac wedi troi cartref gwenau a serch i fod yn breswylfa gofid a chywilydd. Mae pob gweithred o anufudd-dod a gyflawnir gan blentyn yn ymosodiad ar amddiffynfeydd cartref, ac yn tueddu i ddadsylfaenu y colofnau ar y rhai y mae yn gorphwys. Y gelyn gwaethaf sydd gan gartref i frwydro yn ei erbyn yw y diffyg o gyflawnu y dyledswyddau gofynol ar ran ei aelodau. O ganlyniad mae yn angenrheidiol i wylied yn ei erbyn gyda gofal ymroddgar a dibaid. Undeb sydd nerth. Lle mae teulu wedi ei uno yn rhwymau cariad a serch, a holl fryd pob aelod o hono ar gyflawnu y rhwymedigaethau sydd yn ddyledus oddiwrth y naill tuag at y llall, yn y teulu yna y cawn ni y meddyldrych o'r hyn y dylai teulu fod. "A thing of beauty is a joy for ever." Mae cartref a sylfaenir ar yr egwyddorion yna fel castell ag mae ei seiliau yn gorphwys ar y graig mewn lleoedd heulog. Yno mae bendith yr Hollalluog yn disgyn. Mae dylanwadau y fath gartref yn effeithiol ac yn iachusol, nid am dymhor, ond tra parhao bywyd. Fel gwlith y nefoedd maent yn prydferthu ac yn dyrchafu pawb sydd yn preswylio tufewn i'w cylch. A phan mewn blynyddoedd dyfodol mae y plant yn gadael yr hen aelwyd i ymsefydlu drostynt eu hunain, maent yn cario rhyw swyn gyda hwynt sydd yn deilliaw o adgofion boreu eu bywyd. "'Tis distance lends enchantment to the view." Mae yr adgof am yr amser hyfryd hwnw a dreuliwyd tufewn i'r hen furiau anwyl a chyssegredig, yn dychwelyd gyda nerth cynnyddol yn nghanol brwydrau bywyd. Fe ymddengys ieuenctid yn llawn cysur a dedwyddwch, ac fe bair yr adgofion am dano, a rhoddant gyffroad newydd i ymdrechion canol oed a henaint. Bydded i blant, tra mae yn eu gallu, gyflawnu eu dyledswyddau tuag at eu rhieni yn y fath fodd, fel na byddo ganddynt, pan wedi gadael eu hen gartref, reswm i feio eu

hunain am unrhyw anufudd-dod neu esgeulusdod. Bydded i ymdrechion plant yn gystal a rhieni bob amser dueddu tuag at addurno eu cartref ag ewyllys da, amynedd, ufudd-dod, parch a chariad.

A. G. A.

URDDAS A HAWLIAU LLAFUR.

"God is constantly teaching us that nothing valuable is ever obtained without labour."—BINNEY.

YR amcan genym yn hyn o lith fydd, nid difyru meddwl y darllenydd pe medrem, ond meithrin ynddo syniadau teilwng am urddas yn gystal ag am hawliau llafur. Yn y lle blaenaf, dymunem ddatgan y ffaith nad yw llafur corfforol yn un diraddiad arno fel dyn, ond yn hollol i'r gwrthwyneb, ei fod yn anrhydedd iddo. Yr oedd dyn wedi ei wneyd i weithio pan hyd y nod yn ei sefyllfa gyntefig. Camsyniad yw y dyb fod llafur a phechod yn dal cyssylltiad a'u gilydd fel achos ac effaith. Er i Dduw ddweyd wrth Adda wedi iddo droseddu ei orchymyn pendant, mai "trwy chwys ei wyneb y bwytai efe fara," etto nid oes yn y mynegiad hwn un sail i'r syniad na fuasai llafur yn ofynol pe na ddaethai pechod i'r byd. Er mai ychydig sydd wedi cael ei fynegu i ni am ddyn yn ei gyflwr dechreuol, etto gwnaed yn ddigon amlwg i ni ddarfod i Awdwr natur ordeinio fod i'r dyn cyntaf, tra yn y mwynhad o'i berffeithrwydd creadigol, ddwyn allan ei alluoedd corfforol a meddyliol i ymarferiad yn nglyn a chadwraeth y baradwys deg y gosodwyd ef ynddi. Dyma fel y dywedir yn llyfr Genesis, "A'r Arglwydd Dduw a gymmerodd y dyn, ac a'i gosododd ef yn ngardd Eden, i'w llafurio ac i'w chadw hi." Cymmeradwyir llafur a gweithgarwch trwy holl gorff y Gyfrol Ysprydoledig, a gesid y Beibl y ffaith ddyddorol o'n blaen mai o blith meibion llafur y dewisai Duw bob amser rai i fod yn brif offerynau er dwyn ei achos yn mlaen ar y ddaear. Yn rhai o benodau cyntaf y Beibl, gwneir crybwylliad anrhydeddus am un a ddysgodd ddynion i drigo mewn pebyll, ac am un a adeiladodd ddinas, ac am un arall oedd dad i bob teimlydd telyn ac organ; ac anrhydeddir coffadwriaeth Tubal Cain, trwy ddweyd mai efe oedd gweithydd pob cywreinwaith pres ac haiarn. Oddiyma yn mlaen trwy holl gorff y Beibl, yr ydym yn cael ein hadgoffa yn barhaus o'r ffaith fod llafur nid yn unig yn beth hanfodol i gyssur a llwyddiant, ond y perthyn iddo hefyd yr urddas mwyaf. Y mae yn ffaith fod prif enwogion crefydd, y rhai a sonir am danynt yn y Beibl, yn bobl a ddaethant i fyny o fysg y dosparth gweithiol. Er fod rhai o honynt o darddiad mwy anrhydeddus na'u gilydd, etto yr oeddynt oll yn nodedig am eu diwydrwydd—meibion llafur oeddynt i gyd, Yn mysg gweithwyr anrhydeddus yr hen oesau, dechreuwn gyda Noah. "Yr hwn wedi ei rybuddio gan Dduw, am y pethau nis gwelsid etto, a ddarparodd arch

i achub ei dy." Yr oedd y patrieirch Abraham, Isaac, a Jacob yn rhai a ennillasant iddynt eu hunain, trwy eu harferion diwyd a llafurus, olud ac anrhydedd mawr. Ac yr oedd yn rhaid i Moses, cyn bod yn gymhwys i arwain y genedl trwy yr anialwch, fyned i dir Midian, lle y cafodd wybod trwy brofiad am ludded yn gystal ag am wynfydedigrwydd llafur. Dyrnu gwenith oedd Gideon pan ymddangosodd angel yr Arglwydd iddo, i'w appwyntio i fod yn arweinydd y llu, ac i farnu y genedl. Dafydd hefyd yn moreu ei oes a fugeiliai ddefaid ei dad. Elias y proffwyd oedd lafurwr, ac aredig yr oedd Eliseus pan y bwriodd Elias ei fantell arno. Beth a roddodd i Wlad Canaan, ac i wledydd ereill yn yr hen amseroedd, yr holl enwogrwydd a berthynai iddynt? Beth hefyd ond llafur a diwydrwydd eu preswylwyr. Yn ol tystiolaeth y Beibl, "gwlad dda odiaeth oedd Canaan,"—gwlad yn meddu manteision nodedig o ran daear, hinsawdd, a chymhwysderau cynnyrchiol. Ond wedi'r cwbl, llafur dynol a'i gwnaeth yn ogoniant yr holl wledydd.

Dengys hanes yr oesau nas gellir sicrhau un llwyddiant, na chyrhaedd un pinacl o anrhydedd, heb lafur. Ar wahan oddiwrth lafur y bobl, ni allasai Solomon, er doethed oedd, wneyd "Jerusalem yn degwch bro, ac yn llawenydd yr holl ddaear." Tra, trwy lafur yr adeiladwyd y deml ar Moriah, y naddwyd y meini a'r cedrwydd yn Libanus, y dygwyd y defnyddiau at eu gilydd, y parotowyd y colofnau a'r addurniadau, a'r holl gywreinwaith; ac y gorphenwyd yr adeilad ardderchog i fod yn destyn syndod ac edmygedd yr holl wledydd. Os edrychwn etto i oruchwyliaeth y Testament Newydd, canfyddwn feibion llafur yn disgleirio yn danbaid yn ffurfafen yr oruchwyliaeth hon. O fysg y pysgotwyr y galwodd Crist y rhai penaf o'i apostolion. Eistedd wrth y dollfa yr oedd Matthew pan yr anrhydeddwyd ef a galwad i'r swydd apostolaidd. Gwneuthurwr pebyll oedd Paul; ac onid "mab y saer" y gelwid Crist ei hun? ac ar un achlysur, cawn y bobl yn gofyn:—"Onid hwn yw y saer?" Oddiwrth hyn, gellir casglu yn naturiol iddo yntau fod yn weithiwr dros y rhan fwyaf o'i oes; ac os cywir y dybiaeth hon, yr hyn y credwn ei bod, onid yw hyn yn ddigon o brawf fod urddas yn perthyn i lafur? O blith y dosparth gweithiol y cododd llawer o'r dynion enwocaf, i'r rhai y mae cymdeithas yn ddyledus iddynt heddyw. Onid oddiar fainc y crydd y cododd Dr. Carey? Onid oddiwrth y morthwyl a'r llwyarn y derchafodd Hugh Miller? "A pheth mwy a ddywedaf," canys gofod a ballai i mi i fynegu am Davy, Faraday, Telford, Shakespeare, a'r twrser lluosog sydd yn brithio ffurfafen lenyddol, moesol, a chrefyddol ein gwlad. Ai nid o fysg meibion llafur y cododd enwogion y pwlpud Cymreig? Dynion oeddynt o blith y werin gyffredin, o ran eu dygiad i fyny; ond trwy eu llafur a'u penderfynolrwydd, cyrhaeddasant binacl clod a defnyddioldeb. Ac onid oes nifer mawr o enwogion yr oes hon wedi codi o'r dosparth hwn? Ac y mae yn glod i lawer o ddynion ieuainc ein gwlad y dyddiau yma eu bod, drwy eu talent a'u llafur, wedi ymgodi o'r gweithfeydd glo a haiarn, ac oddiwrth wahanol oruchwylion, wedi gweithio eu ffyrdd trwy lawer o anhawsderau ac an-